Hunanwerthusiad o Wasanaethau Addysg yr Awdurdod Lleol i Blant a Phobl Ifanc 2015

Mawrth 2016

Crynodeb 2015

Yn gyffredinol, mae safon bresennol y Gwasanaethau Addysg yn dda ac mae'r gallu i wella deilliannau hefyd yn dda.

Nodweddion da

- Mae cyfraniad addysg i berfformiad blaenoriaethau strategol allweddol y cyngor, sef gwella cyrhaeddiad a lleihau tlodi, wedi bod yn gryf eto eleni.
- Mae perfformiad yn gwella ym meysydd allweddol cyrhaeddiad, presenoldeb, cynhwysiad a rheoli'r isadeiledd. Mae safleoedd cenedlaethol yn gyffredinol ar y lefel ddisgwyliedig ar gyfer dangosyddion allweddol perfformiad neu'n well na hynny.
- Mae perfformiad ysgolion uwchradd Abertawe yng Nghyfnod Allweddol 4 yn dda ar draws ystod o ddangosyddion o'i gymharu ag ysgolion tebyg yng Nghymru. Mae perfformiad yn arbennig o dda yn y prif ddangosydd, lefel 2 gan gynnwys Cymraeg/Saesneg a Mathemateg, lle mae Abertawe'n drydydd yng Nghymru o'i gymharu â safle prydau ysgol am ddim, sef 14eg. Y canlyniad oedd y gorau yng Nghymru dros lefel disgwyliedig y perfformiad. Perfformiodd deuddeg o bedair ar ddeg o ysgolion uwchradd Abertawe yn well na'u lefel ddisgwyliedig yn ôl anfantais (wedi'i fesur yn ôl disgyblion sy'n derbyn prydau ysgol am ddim (cPYDd)).
- Roedd gwelliant llwyr a chymharol mewn presenoldeb eto yn 2014-2015, cynnydd o 0.5% mewn ysgolion cynradd a 0.7% mewn ysgolion uwchradd. Cododd presenoldeb uwchradd i 10fed yn safleoedd Cymru (16eg y llynedd) a chynradd i 11eg (18fed y llynedd). Roedd disgyblion yn bresennol am 91,583 mwy o ddiwrnodau na'r llynedd.
- Mae cynnydd da'n parhau i gael ei wneud yn erbyn tri argymhelliad cyntaf y pump a gafwyd o Arolygiad LAESCYP yn 2013.
- Mae gan yr awdurdod lleol hanes da wrth reoli safleoedd dros ben mewn ysgolion cyfrwng Saesneg, gan ddarparu lleoedd cyfrwng Cymraeg, trwy Raglen AoS 2020.
- Mae trefniadau diogelu yn gadarn a chânt eu monitro'n ofalus.
- Mae cynlluniau gwasanaeth a thîm yn cysylltu'n dda â blaenoriaethau'r gyfarwyddiaeth a chorfforaethol.

Meysydd i'w datblygu

- Gwella perfformiad meincnod ysgolion ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen ac ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 3.
- Lleihau nifer y disgyblion sy'n cael eu haddysgu y tu allan i ysgolion prif ffrwd.
- Gwella ansawdd y ddarpariaeth yn Uned Cyfeirio Disgyblion (UCD) Abertawe.
- Parhau â gwaith atal i leihau nifer y bobl NEET yn 16 oed.
- Cynnal y gwaith i hyrwyddo rhagor o welliant mewn presenoldeb ysgolion cynradd ac uwchradd.
- Gwella cysondeb arweinyddiaeth ar draws yr holl wasanaethau addysg ac ansawdd hunanwerthuso a chynllunio ar gyfer gwelliant yn y gwasanaethau addysg.

A fydd y gwasanaeth yn gwella?

Ffactorau sy'n debygol o gefnogi gwelliant

- Mae blaenoriaethau addysg yn glir iawn ac yn cefnogi cyflwyno'r agenda gorfforaethol yn dda iawn.
- Mae atebolrwydd gwleidyddol a swyddogion a chraffu ar berfformiad yn yr Adran Addysg yn gadarn.
- Mae'r Gwasanaeth Gwella Addysg yn cael ei arwain yn dda ac yn gwneud cyfraniad cadarnhaol i berthnasoedd rhwng ysgolion a'r awdurdod lleol.

Y ffactorau sy'n debygol o rwystro gwelliant

- Penderfyniadau anodd ynghylch y gyllideb yn y tair blynedd nesaf.
- Toriadau cyllidebol digynllun gan Lywodraeth Cymru.
- Mae'r model gwella ysgolion rhanbarthol yn dal i fod mewn cam datblygu cynnar ac mae angen iddo barhau i ddatblygu ei ymagwedd at ddiwallu anghenion lleol.

Argymhellion

1. Gwella perfformiad meincnod ysgolion ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen ac ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 3.
2. Parhau i wella perfformiad disgyblion dan anfantais (sy'n derbyn prydau ysgol am ddim) a grwpiau eraill sy'n tanberfformio (e.e. bechgyn a disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol).
3. Parhau i wella presenoldeb ysgolion lle mae perfformiad yn isel ac islaw'r canolrif.
4. Parhau â gwaith atal i leihau nifer y bobl NEET yn 16 oed.
5. Parhau i ddatblygu'r strategaeth gefnogi o ysgol i ysgol.
6. Datblygu gwaith ailstrwythuro Addysg Heblaw yn yr Ysgol (EOTAS) a gwella darpariaeth yn UCD Abertawe.
7. Sefydlu'r strwythur newydd yn yr Adran Addysg i gynnal arweinyddiaeth a rheolaeth gyson ac effeithiol fel ysgogwyr ar gyfer gwella.

Cwestiwn Allweddol 1 Pa mor dda yw'r deilliannau?

1.1 Safonau

- Mae hanes o welliant parhaol ar gyfer deilliannau dysgwyr. Mae canlyniadau ym mhob cyfnod allweddol wedi gwella rhwng 2013 a 2015.
- Mae'r gyfradd wella yng Nghyfnod Allweddol 4 ymysg y goreuon yng Nghymru. Mae'r holl brif ddangosyddion yn y chwartel uchaf yn 2014-15, gyda Lefel 2 gynhwysol Cymraeg/Saesneg a Mathemateg (L2g) yn drydydd yng Nghymru.
- Yn y Cyfnod Sylfaen, mae Dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS), er ei fod yn sylweddol well na thair blynedd yn ôl, yn dal i fod 0.6% islaw cyfartaledd Cymru.
- Nid yw canlyniadau ôl-16 yn cymharu'n dda â chyfartaleddau Cymru ac, er bod gan rai ysgolion ganlyniadau da'n gyson, mae amrywiad mawr rhwng ysgolion bob blwyddyn.
- Mae cyfradd cynnydd Abertawe'n cymharu'n dda â chyfartaleddau Cymru yn y tair blynedd diwethaf, a chanlyniadau 2015 yw'r gorau erioed yn y ddau gyfnod. Mae perfformiad ôl-16, o'i gymharu â pherfformiad Cymru, yn gallu amrywio'n fawr bob blwyddyn.
- Mae cyfraddau gwella cymharol yn amrywio ar draws cyfnodau allweddol, ond maent o leiaf cystal â rhai Cymru, ac yn sylweddol well yng Nghyfnod Allweddol 4.
- Mae'r safleoedd ar gyfer pynciau craidd ym mhob cyfnod allweddol yn debyg, er bod Cymraeg (iaith gyntaf) yn y 3ydd safle yng Nghyfnod Allweddol 3. Nid yw data Cyfnod Allweddol 4 cymharol ar gyfer 2015 ar gael eto, ond yn 2014 roedd yr holl bynciau craidd uwchben rhai Cymru ac yn y chwartel cyntaf neu'r ail chwartel (roedd y Dangosydd Pynciau Craidd (DPC) yn 8fed).
- Yn 2015, Cyfnodau Allweddol 2 a 4 oedd y perfformwyr cryfaf o'u cymharu â chanlyniadau cenedlaethol a safle rhwng awdurdodau lleol. Dangosodd y Cyfnod Sylfaen a Chyfnod Allweddol 3, er gyda'r canlyniadau gorau erioed, berfformiad a oedd yn agosach at safle meincnod disgwyliedig Abertawe, sef 14eg.
- Mae dadansoddiad o ddata disgyblion yn dangos bod rhai grwpiau o ddysgwyr nad ydynt yn perfformio cystal ag eraill, yn benodol, Gweithredu Ysgol a Mwy, Ewropeaid dwyreiniol, Plant sy'n Derbyn Gofal (PDG) a Theithwyr. Mae disgyblion cPYDd hefyd yn dangos cyrhaeddiad is na disgyblion nad ydynt yn cael PYDd, er bod y bwlch yn culhau ac yn aml yn dangos gwerth ychwanegol cadarnhaol.
- Mae perfformiad chwartel meincnod ysgolion yn amrywio ac ar ei gryfaf yng Nghyfnod Allweddol 4 lle roedd 11 ysgol o'r 14 yn uwch na'r DPC a Lefel 2 gynhwysol Cymraeg/Saesneg a Mathemateg (L2g).
- Mae data cyhoeddedig Llywodraeth Cymru 2015, sy'n cymharu canlyniadau awdurdod lleol â pherfformiad meincnod disgwyliedig yn seiliedig ar PYDd, yn dangos bod gan Abertawe berfformiad cadarnhaol, ac eto Cyfnod Allweddol 4 yw'r gorau. Roedd yr L2g 7.8% yn uwch na'r meincnod, a dyma'r gwahaniaeth mwyaf yng Nghymru. Roedd y sgôr pwyntiau wedi'i chapio 12.6 pwynt yn uwch na'r meincnod a oedd yr ail orau yng Nghymru.
- Mae nifer o ysgolion cynradd ac uwchradd o hyd lle mae angen sicrhau rhagor o welliant. Mae nifer bach o ysgolion â pherfformiad chwartel isaf dros dair blynedd yn y Cyfnod Sylfaen, Cyfnod Allweddol 2 a Chyfnod Allweddol 3, er bod rhesymau dros y perfformiad hwn mewn rhai achosion.

- Yng Nghyfnod Allweddol 4, nid oes ysgolion wedi bod yn y chwartel isaf ar gyfer pob un o'r tair blynedd diwethaf ar gyfer yr L2g, ond mae dwy ysgol wedi bod islaw'r canolrif ar gyfer pob un o'r blynyddoedd hyn. Mae un ysgol wedi bod islaw'r canolrif ar gyfer y sgôr pwyntiau wedi'i chapio ar gyfer pob un o'r tair blynedd diwethaf.
- Mae'r awdurdod lleol wedi rhoi blaenoriaeth uchel ar wella sgiliau llythrennedd a rhifedd. Mae'r strategaethau sydd wedi cael eu defnyddio'n dangos gwelliant parhaus yn y sgiliau hyn ac wedi cyfrannu'n gadarnhaol at wella perfformiad ym mhob cyfnod allweddol.
- Mae perfformiad pynciau craidd yn dangos amrywiadau bach yn y cyfnodau allweddol ac ar eu traws ond, erbyn Cyfnod Allweddol 4, mae'r holl bynciau craidd yn perfformio'n uwch na chyfartaleddau cenedlaethol, fel a ddangosir gan fod y DPC yn uwch na chanolrif awdurdod lleol Cymru (8^{fed} yn 2013-2014 o'i gymharu â'r safle meincnod disgwyliedig, sef 14^{eg}).
- Mae gwerth cadarnhaol yn cael ei ychwanegu (Ymddiriedolaeth Teulu Fischer (FFT)) ym mhob cyfnod allweddol, ac mae'n sylweddol gadarnhaol yng Nghyfnod Allweddol 4 (nid yw data 2015 ar gael eto, ond mae'n debygol y bydd hyn yn wir o hyd).
- Nid oes data gwerth ychwanegol FFT ar gyfer deilliannau'r Cyfnod Sylfaen. Mae canlyniadau 2015 ym mhob cyfnod allweddol yn uwch na 2014, felly gellid disgwyl i'r data gwerth ychwanegol ar gyfer 2015 fod yn gadarnhaol (ac yn sylweddol gadarnhaol ar gyfer Cyfnod Allweddol 4).
- Mae canran y disgyblion o leiafrifoedd ethnig yng Nghyfnod Allweddol 4 sy'n cyflawni'r DPC, y trothwy Lefel 2 a'r trothwy Lefel 1 yn neilltuol ac yn gyson uwch na holl ddisgyblion Abertawe ac yn uwch na chanlyniadau Cymru gyfan.
- Mae perfformiad da mewn ysgolion uwchradd Cymraeg yn parhau, yn enwedig yng Nghyfnod Allweddol 4 lle mae perfformiad yn gyson ymysg y goreuon yng Nghymru. Yng Nghyfnod Allweddol 2, mae perfformiad yn fwy amrywiol.
- Cynyddodd nifer y disgyblion oedd yn dewis astudio'r cwrs Cymraeg (ail iaith) llawn yn TGAU unwaith eto yn 2014-2015, uwchben y darged a bennwyd yng Nghynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg, a rhagwelir rhagor o welliant wrth i ysgolion uwchradd ychwanegu Cymraeg (ail iaith) at y pynciau craidd.
- Yn 2014, symudodd 86.0% o adawyr Blwyddyn 11 i addysg amser llawn yn yr ysgol neu'r coleg, ac roedd 3.5% (89 o ddisgyblion) yn NEET yn ôl ystadegau cenedlaethol. Oherwydd bod y garfan yn llai, roedd cynnydd canran bach ar y flwyddyn flaenorol, ond llai o ddisgyblion mewn termau go iawn. Nid yw data 2015 ar gael eto. Eleni, 2015, mae data darpariaeth yn awgrymu y bydd gostyngiad arall yn nifer y bobl ifanc NEET gyda mentrau megis cynllun peilot 14-19 oed, gwaith allgymorth Haen 1, a chyrsiau modiwlaidd yng Ngholeg Gŵyr.
- Yn 2014, gadawodd chwe disgybl (0.24%) heb gymwysterau, ac yn 2013 roedd tri'n unig (0.11%) wedi gadael heb gymwysterau. Teithwyr oedd y rhan fwyaf o'r disgyblion hyn. Nid yw data 2015 ar gael eto.
- O ran perfformiad y rhywiau**,** mae bylchau mewn perfformiad bechgyn/merched ym mhob cyfnod allweddol wedi lleihau. Bu'r gostyngiad mwyaf yng Nghyfnod Allweddol 4, lle mae'r bwlch L2g wedi lleihau o -10.3% i -6.7% gyda chynnydd serth yng nghanlyniadau bechgyn.
- Ar gyfer perfformiad disgyblion dan anfantais (cPYDd) o'i gymharu â pherfformiad disgyblion nad ydynt dan anfantais, mae'r bylchau ym mhob cyfnod allweddol

hefyd wedi lleihau. Yng Nghyfnod Allweddol 4, mae'r bwlch L2g wedi lleihau o -34.9% i -31.8% gyda chynnydd serth yng nghanlyniadau cPYDd.

- Rhwng 2013 a 2015, mae disgyblion Gweithredu Ysgol a Mwy (GYM) wedi dangos gwelliant sylweddol yn eu canlyniadau ym mhob cyfnod allweddol. Mae'r L2g yng Nghyfnod Allweddol 4 wedi codi o 19.8% i 32.5%.
- Mewn Dysgu Seiliedig ar Waith, dangosodd yr Adroddiad Deilliannau Dysgwyr cyhoeddedig terfynol ar gyfer 2013-2014 ostyngiad mewn fframweithiau prentisiaethau i 78% o'i gymharu â'r cymharydd cenedlaethol, sef 84%. Fodd bynnag, mae'r cyfraddau llwyddiant fframweithiau ar gyfer blwyddyn academaidd 2014-2015 yn dangos cynnydd i 81% yn dilyn y dyddiad cau terfynol ym mis Chwefror gyda phob un o'r tair lefel brentisiaeth (Sylfaen, Prentisiaeth ac Uwch) yn gwella.
- Hefyd, gostyngodd cyrhaeddiad gweithgarwch dysgu ar draws rhaglenni i 84% yn 2013-2014 gan barhau'n unol â'r ffigur cenedlaethol, sef 83%. Mae cyfraddau llwyddiant gweithgarwch ar gyfer 2014-2015 yn parhau i fod yn gyson ar 84%.
- Parhaodd dilyniant cadarnhaol i bobl ifanc ar y rhaglenni dan hyfforddiant yn unol â'r cymaryddion cenedlaethol; cynyddodd dilyniannau i gyflogaeth, addysg neu hyfforddiant yn ystod 2013-2014 5% i 71% yn y llinyn cynnwys hyfforddiant a pharhau'n gyson ar 65% yn y llinyn hyfforddiant Lefel 1. Fodd bynnag, er bod y cyfraddau dilyniant cynnwys hyfforddiant wedi parhau i fod ar 71% ar gyfer 2014-2015, mae'r cyfraddau hyfforddiant Lefel 1 wedi disgyn i 55%; bu colli comisiwn y rhaglen hyfforddiant ym mis Mawrth 2015 yn rhan o'r effaith ar hyn.
- Arolygwyd Dysgu Oedolion yn y Gymuned ym mis Hydref 2014. Mae Partneriaeth Ddysgu Abertawe yn y traean gorau o ddarparwyr yng Nghymru. Roedd y deilliannau o'r arolygiad yn Dda ym mhob maes bron gyda Rhagorol ar gyfer gwaith partneriaeth a Rhagorol ar gyfer rhagolygon ar gyfer gwella. Yn 2014-2015, cyflawniad dysgu achrededig oedd 87% a oedd 3% yn uwch na'r meincnodau cenedlaethol a gwelliant 18% dros y tair blynedd academaidd flaenorol.

Meysydd i'w datblygu

- Gwella perfformiad meincnod ysgolion ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen ac ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 3.
- Parhau i leihau'r bwlch rhwng disgyblion PYDd a disgyblion nad ydynt yn derbyn PYDd.
- Parhau i leihau'r bwlch perfformiad rhwng ysgolion â pherfformiad uchel ac isel.
- Gwella perfformiad bechgyn.
- Parhau i weithio gydag ysgolion i wella cyflawniad i ddisgyblion ar gam Gweithredu Ysgol a Mwy.
- Gwella deilliannau yng Nghyfnod Allweddol 4 i ddisgyblion sy'n Sipsiwn ac yn Deithwyr.
- Gwella cydweithio rhwng darparwyr ôl-16 i wella'r dangosydd trothwy Lefel 3 ymhellach a'r sgôr pwyntiau ehangach ar ôl-16 tuag at y cyfartaledd cenedlaethol.
- Parhau i leihau nifer y bobl NEET yn 16 oed trwy gynnig mwy o ddarpariaeth hyblyg ac wedi'i theilwra.

- Parhau i fodloni'r targedau yng Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg i ddatblygu cyfleoedd i ddysgwyr gael mynediad i ddysgu trwy gyfrwng y Gymraeg ym maes Dysgu Oedolion yn y Gymuned a Dysgu Seiliedig ar Waith.

1.2 Lles

- Mae'r awdurdod lleol yn defnyddio data'n dda i weithio gydag ysgolion a phartneriaid i greu'r Proffil Asesu Bod yn Agored i Niwed (PABAN) a'r Tîm am y Teulu i nodi'r plant a phobl ifanc sydd yn y perygl mwyaf o ran eu lles a'u deilliannau dysgu. Mae plant a phobl ifanc o'r ardaloedd â'r amddifadedd mwyaf yn cael cefnogaeth sylweddol wedi'i thargedu trwy'r Gwasanaeth Ymyrryd yn Gynnar.
- Mae aildrefnu'r Gwasanaeth Tlodi a'i Atal wedi rhoi'r awdurdod lleol a'i bartneriaid mewn sefyllfa gryfach fyth i gydweddu gwasanaethau mewn ffordd gydlynol ar gyfer anghenion unigol a gwella deilliannau.
- Defnyddir arian Teuluoedd yn Gyntaf Llywodraeth Cymru i sefydlu rhaglen strategol eang sy'n cynnwys cyfres o ffrydiau ariannu'n dod ynghyd i ddarparu ymagweddau, systemau a gwasanaethau integredig wedi'u targedu ar blant a phobl ifanc ddiamddiffyn.
- Mae rhaglen Dechrau'n Deg Llywodraeth Cymru'n parhau i gefnogi 25% o'r plant 0-4 oed yn Abertawe gydag iaith a lleferydd, ymweliadau iechyd a gofal plant, gan alluogi rhieni a'u plant i dyfu a datblygu gyda'i gilydd sicrhau bod mwy o blant yn barod ar gyfer yr ysgol ac yn barod i ddysgu.
- Mae'r cyngor wedi llunio strategaeth y Blynyddoedd Cynnar sy'n canolbwyntio ar blant 9 mis - 5 oed. Nod hyn yw lleihau'r bwlch mewn datblygiad rhwng y plant mwyaf difreintiedig a lleiaf difreintiedig, gan sicrhau bod pawb yn cyrraedd y lefel ddatblygiadol iawn. Strategaeth a rennir yw hon rhwng yr Adrannau Tlodi a'i Atal ac Addysg a'n partneriaid ym maes iechyd.
- Mae presenoldeb ar draws ysgolion cynradd ac uwchradd wedi gwella eto yn 2014-2015. Presenoldeb cynradd cyffredinol yn Abertawe oedd 94.9% ar gyfer 2014-2015, 11^{eg} yng Nghymru, sef gwelliant ar 2013-2014 o 18^{fed}. Mae angen i bresenoldeb wella ymhellach ac yn gyflymach mewn rhai ysgolion cynradd.
- Am y tro cyntaf, roedd presenoldeb uwchradd ar gyfer 2014-2015 0.2% yn well na chyfartaledd Cymru, sy'n golygu bod Abertawe'n 10^{fed} yng Nghymru, gwelliant ar 2015-2016 ar gyfer y llynedd. Abertawe oedd yr 8^{fed} gwellhäwr gorau dros y pum mlynedd diwethaf a dyma'r awdurdod trefol â'r perfformiad gorau yng Nghymru.
- Mae gwaharddiadau parhaol yn parhau i fod yn isel yn Abertawe.
- Mae cyfradd y gwaharddiadau cyfnod penodol o ysgolion uwchradd yn Abertawe wedi bod yn is na chyfradd Cymru gyfan ac wedi lleihau ar gyfradd debyg i Gymru dros y tair blynedd diwethaf. Mae Abertawe'n 10^{fed}, sylweddol well nag unrhyw awdurdod lleol trefol arall. Mae gwaharddiadau cyfnod penodol chwe diwrnod neu fwy wedi gwella i fod yr un peth â chyfradd Cymru, bellach yn 9^{fed} (o 15^{fed}).
- Canlyniad newid diwylliannol yw'r duedd am i lawr mewn gwaharddiadau parhaol a chyfnod penodol (e.e. arfer adferol, darpariaeth EOTAS, trosglwyddo rheoledig a hyfforddiant ymddygiad) a chefnogaeth wedi'i thargedu.
- Roedd y gostyngiad yn nifer y bobl ifanc NEET yn Abertawe rhwng 2010 a 2012 yn llwyddiant a gydnabuwyd yn genedlaethol. Mae gan y strategaeth a ddefnyddir

ffocws strategol clir, sef nodi a thargedu pobl ifanc mewn perygl, gweithio mewn partneriaeth a rhannu gwybodaeth a darpariaeth a chefnogaeth amlasiantaeth. Mae gwaith partneriaeth yr awdurdod lleol, ysgolion, AB, sefydliadau gwirfoddol, darparwyr a Gyrfa Cymru (y Tîm Cadw mewn Cysylltiad) wedi bod yn allweddol i'r llwyddiant hwn. Roedd cynnydd bach yn nifer y bobl ifanc NEET yn 2013 a gwnaed gwaith i fynd i'r afael â hyn gyda ffigurau is wedi'u hadrodd yn 2014. Mae data dros dro'n awgrymu bod y duedd hon wedi parhau yn 2015 gyda mwy o waith wedi'i dargedu, defnyddio'r PABAN a ffactorau risg ychwanegol megis presenoldeb llai na 80%, statws Gweithredu Ysgol a Mwy, a statws PDG.

- Mae gwasanaeth cwnsela Abertawe'n fodel o arfer da. Mae pobl ifanc sy'n defnyddio gwasanaethau cwnsela'n cael cefnogaeth neilltuol gan y gwasanaeth cwnsela mewn ysgolion a lleoliadau cymunedol gan arwain at lefelau lles sylweddol uwch. Mae hyn yn cynnwys darpariaeth i blant iau.
- Mae'r rhan fwyaf o blant a phobl ifanc yn dangos ymagwedd dda at eu hiechyd corfforol o ganlyniad i amrywiaeth o wasanaethau a chefnogaeth gan yr awdurdod lleol a'i bartneriaid.
- Mae agweddau cadarnhaol at ddysgu'n ganlyniad amrywiaeth eang o gyfleoedd dysgu a ddarperir trwy gerddoriaeth, celfyddydau creadigol a pherfformio, Addysg Awyr Agored, Breswyl, Amgylcheddol (AAABA), a Gwobr Dug Caeredin.
- Mae Cyngor Abertawe wedi sefydlu Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP) yn ei fframwaith polisi ac mae ganddo ymagweddau cadarnhaol syml at hawliau plant a phobl ifanc trwy gyflwyno Gwobr Ysgolion sy'n Parchu Hawliau UNICEF sy'n gwneud hawliau plant yn rhan ganolog o gynllunio, polisïau, arfer ac ethos ysgolion.
- Mae 85% o ysgolion yn Abertawe wedi dechrau ar eu taith parchu hawliau, mae 33% eisoes wedi cyflawni Lefel 1 ac mae 16% arall wedi cyflawni Lefel 2.

Meysydd i'w datblygu

- Parhau i wella presenoldeb ysgolion a chynyddu nifer yr ysgolion cynradd yn chwarteli 1 a 2.
- Gwella presenoldeb disgyblion sy'n cael PYDd yn y sectorau cynradd ac uwchradd.
- Lleihau nifer y gwaharddiadau cyfnod penodol mewn lleiafrif o ysgolion uwchradd.
- Gwella cyfraddau ailintegreiddio o UCD, gyda ffocws penodol ar Gyfnod Allweddol 3.
- Parhau i sefydlu hawliau plant trwy'r Wobr Ysgolion sy'n Parchu Hawliau a chynyddu nifer yr ysgolion sy'n cymryd rhan i 100% yn 2016-2017, gyda phob ysgol yn cyflawni Lefel 1 neu uwch erbyn 2017-2018.

Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?

2.1 Cefnogaeth i wella ysgolion

- Mae trefniadau addas ar waith i gefnogi a herio ysgolion o ganlyniad i werthuso safonau, darpariaeth ac arweinyddiaeth. Mae tanberfformiad a ffactorau risg mewn ysgolion bron i gyd yn cael eu nodi'n gyflym a'u datrys yn gyflym. Fodd

bynnag, nid yw tanberfformiad ychydig o ysgolion yn cael ei nodi'n ddigon cyflym. O ganlyniad, mae angen gwelliant sylweddol ar yr ysgolion hyn.

- Mae ymateb clir a chydlynol i gefnogi ysgolion y mae angen gwelliant sylweddol arnynt a'r rhai y mae angen ymweliadau dilynol gan Estyn arnynt. Mae'r gyfradd wella'n gryf neu'n dda iawn bron ym mhob ysgol.
- Mae herio safonau'n gyson, trwy ddadansoddi data a deialog heriol ar dargedau, arweinyddiaeth a darpariaeth, yn darparu gwerthusiadau trwyadl o bron pob ysgol.
- Mae gwerthusiad trwyadl o lwyddiant bron pob ysgol wrth fynd i'r afael ag argymhellion a meysydd perfformiad allweddol. Mae'r holl feysydd hyn yn cael eu monitro i fesur cynnydd yn ôl deilliannau disgyblion.
- Mae deialog gryfach ar berfformiad grwpiau o ddysgwyr a defnydd arian grant yn datblygu'n dda.
- Mae ysgolion yn deall yn llwyr bod y gefnogaeth yn gymesur ag angen a bod ysgolion sy'n tanberfformio'n cael mwy o gefnogaeth a her. Mae gwahaniaethu a diffiniad clir yn y gefnogaeth, yr her a'r ymyriad a roddir i ysgolion.
- Mae ymweliadau monitro y sicrhawyd eu hansawdd yn ystod tymor hydref 2015 yn dangos lefel briodol o her.
- Mae adborth ffurfiol ac anffurfiol gan benaethiaid yn dangos bod her gadarn ar gyfer gwella. Fodd bynnag, mae penaethiaid hefyd yn dweud wrthym fod gormod o amser yn cael ei dreulio'n paratoi at ymweliadau monitro blynyddol ac y gallai'r amser hwn gael ei ailddyrannu i fwy o amser cefnogi i ysgolion.
- Mae ansawdd samplau o ymweliadau monitro, yn eu lle, yn cael ei sicrhau i wella cysondeb ac ansawdd darpariaeth ar gyfer gwella ysgolion ymhellach.
- Mae'r ysgolion y mae angen y gefnogaeth fwyaf arnynt i wella'n cael eu herio gan y Prif Swyddog Addysg, trwy graffu ym Mwrdd Gwella'r Prif Weithredwr a'r Panel Craffu Perfformiad Ysgolion. Mae'r Pennaeth Gwella Addysg a'r Prif Swyddog Addysg yn ymweld ag ysgolion i gyflymu gwella os oes angen.
- Darperir cefnogaeth effeithiol ar gyfer y Cyfnod Sylfaen, datblygu cymhwysedd digidol, llythrennedd a rhifedd, Cymraeg, Cymraeg (ail iaith), Saesneg a Mathemateg, asesu a chymedroli, datblygu arweinyddiaeth, ieithoedd tramor modern ac athrawon newydd gymhwyso.
- Mae amrywiaeth o fentrau cefnogaeth wedi'i thargedu gan lywodraethwyr, addysgwyr cyllid a data ac ymgynghorwyr herio ar waith i helpu llywodraethwyr i ddatblygu sgiliau i herio ysgolion. Disgwylir i lywodraethwyr fod yn bresennol mewn ymweliadau monitro i gefnogi penaethiaid i nodi arfer, data, perfformiad a thystiolaeth i lywio'r asesiad categoreiddio. Mae hyn wedi helpu i gynyddu'r her a'r gefnogaeth mae llywodraethwyr yn eu rhoi i ysgolion.
- Mae arweiniad wedi'i lunio i gefnogi llywodraethwyr wrth recriwtio uwch-arweinwyr ar gyfer eu hysgolion gyda chyfraniad uniongyrchol gan ymgynghorwyr herio. Mae hyn wedi helpu i sicrhau cadernid gwell i'r broses a gwneir penodiadau da.
- Mae cefnogaeth ar gyfer gwella ansawdd yr addysgu'n ddefnyddiol. Darperir arsylwi uniongyrchol â ffocws ar addysgu i gefnogi ysgolion â'u gwaith monitro eu hunain. Hefyd, rhoddir cyngor cadarn ar ddilysu dulliau presennol mewn ysgolion i wella addysgu.
- Mae pecynnau cefnogi *pwrpasol* cyson, wedi'u brocera ar gyfer gwella ysgolion yn dechrau cael effaith mewn ysgolion y mae angen cefnogaeth fynych a dwys arnynt.

- Mae cysondeb ar draws Hwb Castell-nedd Port Talbot Port Talbot ac Abertawe (Hwb y Dwyrain) yn datblygu trwy ymagweddau tebyg at wella ysgolion yn ogystal â digwyddiadau hyfforddiant ar y cyd.
- Mae cefnogaeth ar gyfer llythrennedd ac iaith mewn ysgolion Cymraeg yn gwella. Fodd bynnag, byddai rhagor o gydweithio ar draws yr hwb yn cryfhau darpariaeth.
- Mae uwch-arweinwyr yn gweithio'n effeithiol ar draws ysgolion i fonitro, cynghori a rhannu arfer gorau, fel ymgynghorwyr herio rhan-amser.
- Mae hyfforddiant arweinyddiaeth i athrawon uchelgeisiol yn y sector uwchradd a phenaethiaid newydd a gweithredol yn y sector cynradd yn effeithiol ac yn dangos hwyluso cydweithredu rhwng ysgolion yn glir.
- Mae ysgolion wedi cael hyfforddiant o safon ar brosesau hunanwerthuso a chynllunio strategol. Fodd bynnag, mae angen mwy o adborth effeithiol ar ysgolion bellach ynghylch ansawdd eu prosesau hunanwerthuso a'u cynllunio strategol. Mae'r ymgynghorwyr herio'n mynd i'r afael â hyn yn dda trwy ymweliadau monitro.

Meysydd i'w datblygu

- Parhau i sicrhau y cyflawnir gwerth am arian gan nad oes ysgolion na darpariaethau yn y categori statudol a chynyddu cyfran yr ysgolion sydd fwyaf addas ar gyfer nodweddion A a B ar gyfer arweinyddiaeth ac ansawdd addysgu (gan ddefnyddio'r system gategoreiddio genedlaethol).
- Sicrhau diogelwch asesiadau athrawon diwedd cyfnod allweddol mewn clystyrau ac ar draws y rhanbarth.
- Integreiddio Fframwaith Datblygu ac Asesu'r Blynyddoedd Cynnar (pan gaiff ei roi ar waith gan Lywodraeth Cymru) i Ddechrau'n Deg a'r Cyfnod Sylfaen er mwyn olrhain cynnydd plant ifanc.
- Sicrhau y lledaenir arfer effeithiol ar draws ysgolion trwy ddatblygu mynegai rhagoriaeth, defnyddio ymarferwyr arweiniol ym maes llythrennedd a rhifedd a hwyluso digwyddiadau arfer da.
- Cefnogi ysgolion i baratoi newidiadau cwricwlaidd.
- Datblygu mwy o gadernid wrth herio ysgolion uwchradd ar sut maent yn pennu targedau, yn enwedig i ddisgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim.
- Adolygu darpariaeth i sicrhau bod her wedi'i chydbwyso â chefnogaeth ac nad yw paratoi at ymweliadau monitro'n mynd yn rhy fiwrocrataidd.
- Datblygu cronfa arweinyddiaeth ymgynghorol i weithio ar draws ysgolion i gryfhau gallu arwain.
- Sicrhau bod hawl y gweithlu ysgolion i ddatblygiad proffesiynol parhaus o safon yn cael ei gwerthuso mewn perthynas â'r Grant Gwella Addysg (GGA).
- Hwyluso rhagor o ddigwyddiadau penodol i hyrwyddo darpariaeth effeithiol y Cyfnod Sylfaen yn ogystal â lledaenu arfer da asesu ar gyfer dysgu.

2.2. Cefnogaeth ar gyfer anghenion dysgu ychwanegol

- Mae'r gefnogaeth ar gyfer anghenion dysgu ychwanegol a chynhwysiad addysg yn dda. Mae polisïau a chynlluniau'n cael eu diweddaru i fodloni rhwymedigaethau statudol.

- Mae'r awdurdod lleol yn cydymffurfio â gofynion y deddfau amrywiol. Mae proses effeithiol ar gyfer diweddaru polisïau a chynlluniau trwy'r ysgol ac mae grŵp strategaeth swyddogion ar waith.
- Mae'r awdurdod lleol wedi dirprwyo adnoddau i ysgolion i ddiwallu anghenion plant ag anghenion difrifol a chymhleth. Mae'r fformiwla ar gyfer dyrannu'r gyllideb hon wed'i hadolygu fel rhan o adolygiad fformiwla ariannu ehangach ym maes addysg.
- Mae datblygu Fforwm y Blynyddoedd Cynnar ym maes iechyd yn sicrhau y nodir anghenion addysgol arbennig (AAA) yn gynnar.
- Mae lleoliadau Dechrau'n Deg yn cyflwyno mwy o gefnogaeth ddwys i'r plant yn eu blynyddoedd cynnar y mae eu datblygiad wedi'i rwystro ac y mae ganddynt AAA a nodwyd, gan sicrhau bod eu pontio parhaol i ddosbarth Meithrin a'r ysgol yn cael ei reoli cystal ag y bo modd.
- Mae nifer yr asesiadau statudol sy'n cael eu cwblhau erbyn oed ysgol statudol yn uchel ac ymhell uwchben cyfartaledd Cymru gyfan.
- Mae dysgwyr yng Nghyfnod Allweddol 4 ag anghenion dysgu ychwanegol ar lefelau Gweithredu Ysgol, Gweithredu Ysgol a Mwy a datganiad i gyd yn dangos gwerth cadarnhaol sylweddol wedi'i ychwanegu ar ddadansoddiad gwerth cyd-destunol ychwanegol dros dair blynedd. Yng Nghyfnod Allweddol 2, gan ddefnyddio'r un dadansoddiad, mae dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol ar lefel Gweithredu Ysgol yn dangos deilliant gwerth ychwanegol negyddol bach (3%) gyda dysgwyr ar lefelau Gweithredu Ysgol a Mwy a datganiad yn dangos amrywiad nad yw'n sylweddol.
- Mae gan ansawdd y gefnogaeth, yr arweiniad a'r hyfforddiant ar gyfer AAA nodweddion rhagorol yn ôl gwerthusiad rhwydweithiau proffesiynol o ymarferwyr, dadansoddiad o adolygiadau, nifer y bobl sy'n dilyn cyrsiau a gwerthusiadau, cynadleddau a chymorthfeydd.
- Mae Abertawe wedi dilyn agenda gynhwysol ers rhai blynyddoedd. Mae hyn wedi arwain at oddeutu 99% o ddisgyblion yn Abertawe'n cael eu haddysgu mewn ysgolion prif ffrwd. Mae meithrin gallu mewn ysgolion ac ystod y gefnogaeth arbenigol yn rhan o'r agenda hon ac maent wedi cyfrannu at ddeilliannau cadarnhaol y rhai ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY).
- Mae deilliannau cadarnhaol ar y cyfan i blant a phobl ifanc ag ADY a gafodd eu nodi a'u holrhain trwy'r gweithdrefnau arolwg AAA yn y brif ffrwd, y rhai a roddwyd mewn CAA a'r rhai sy'n mynd i ysgolion arbennig oherwydd darpariaeth o safon. Mae staff ADY yn gweithio gyda chydweithwyr ymgynghorwyr herio i ddadansoddi data cynnydd disgyblion sy'n mynd i ysgolion prif ffrwd a chynnal ymweliadau dilynol ag ysgolion yn ôl yr angen bob blwyddyn.
- Mae data olrhain disgyblion yn yr ysgolion arbennig yn amrywiol ac mae'r ysgolion wrthi'n gweithio i wella hyn fel rhan o'u cynnig arloesol. Bernir bod yr ysgolion eu hunain yn effeithiol.
- Mae nifer y disgyblion sy'n cael eu gwahardd yn barhaol yn isel. Mae ysgolion yn cael eu cefnogi i reoli plant ag anawsterau cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol (ACEY) trwy amrywiaeth o wasanaethau a phrosesau cefnogi.
- Mae'r Uned Cyflawniad Lleiafrifoedd Ethnig (EMLAS gynt) yn cyflwyno cefnogaeth ardderchog mewn ysgolion trwy hyrwyddo a gweithredu modelau effeithiol a chynaliadwy yn seiliedig ar ymagweddau meithrin gallu cydweithredol.

Mae'r fath fodelau'n sicrhau bod sgiliau athrawon dosbarth a phwnc yn cael eu cynyddu wrth ddiwallu anghenion niferoedd cynyddol o blant a phobl ifanc o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig, yn benodol y rhai sy'n dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol (SIY) sy'n mynd i ysgolion Abertawe. Adlewyrchir y gefnogaeth hon yn neilliannau plant a phobl ifanc o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig yn Abertawe.

- Mae gwasanaethau cefnogi ADY yn cynnig mewnbwn ag enw da, y mae galw mawr amdanynt ac y mae ganddynt gyfraddau hawlio ardderchog ac y maent yn dangos gwerth da am arian.
- Mae lefelau uchel cyson o gynhwysiad yn cael eu cynnal trwy gynnig cefnogaeth i blant yn y brif ffrwd, ac mae nifer isel o leoliadau y tu allan i'r sir.
- Mae Llwybr Integredig Sengl y Blynyddoedd Cynnar wedi'i sefydlu i sicrhau bod yr holl blant cyn oed ysgol ag anabledd sy'n dod i'r amlwg neu wedi'i ddiagnosio'n gallu cael mynediad i wasanaeth addas i ddiwallu eu hanghenion.
- Mae plant a phobl ifanc â'r anghenion mwyaf difrifol sy'n dechrau yn yr ysgol yn cael datganiadau a chefnogaeth wrth ddechrau yn yr ysgol.

Meysydd i'w datblygu

- Adolygu'r strategaeth i leihau dibyniaeth ar ddatganiadau AAA yng nghyd-destun dirprwyo adnoddau AAA.
- Cynnal ymwybyddiaeth a chymryd rhan ym mhroses ddiwygio ADY Llywodraeth Cymru.
- Datblygu systemau ymhellach ar gyfer olrhain deilliannau a gwerthuso cynnydd dysgwyr sy'n mynd i gyfleusterau addysgu arbenigol (CAA) ac yn y brif ffrwd gyda Gweithredu Ysgol, Gweithredu Ysgol a Mwy ac â datganiadau AAA, trwy weithio agos rhwng swyddogion ADY, ymgynghorwyr herio a staff ysgolion.
- Gwella ansawdd a chysondeb data disgyblion ysgolion arbennig.
- Gwerthuso a gwella deilliannau ymhellach yng Nghyfnod Allweddol 2 i ddysgwyr Gweithredu Ysgol.
- Datblygu cydweithio agosach rhwng yr Uned Anghenion Dysgu Ychwanegol (UADY) a ffrydiau gwaith arbenigol perfformiad.
- Mireinio a datblygu hyfforddiant i lywodraethwyr i gynnwys awtistiaeth a lleferydd, iaith a chyfathrebu.
- Meithrin gallu ar gyfer ADY yn yr holl ysgolion trwy fentrau ysgol i ysgol a rhanbarthol.
- Dirprwyo adnoddau AAA i ysgolion i'w fonitro, gan gynnwys unrhyw effaith bosibl ar lefel y datganiadau.

2.3 Hyrwyddo cynhwysiad cymdeithasol a lles

- Darperir gwaith Atal ac Ymyrryd yn Gynnar effeithiol i gefnogi teuluoedd gan y Gwasanaeth Magu Plant (gan gynnwys cefnogaeth i dadau), Dechrau'n Deg a'r Tîm am y Teulu. Targedir y gwasanaethau hyn i ardaloedd lle mae'r amddifadedd mwyaf.
- Mae sefydlu Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid ac Ymyrryd yn Gynnar Bae'r Gorllewin wedi arwain at rannu arbenigedd ymhlith staff a chynyddu cyfleoedd i blant a phobl ifanc gyflawni newid cadarnhaol. Ar y cyd, mae Gwasanaeth Bae'r

Gorllewin wedi lleihau nifer y bobl sy'n mynd i'r system cyfiawnder ieuenctid am y tro cyntaf 36.6% fel a adroddwyd ar gyfer 2014/15, sy'n cymharu'n dda yn erbyn gostyngiad cyfartalog 19% yn ne Cymru a chyfartaledd Cymru, sef 31%. Ar gyfartaledd, 38.1% oedd nifer y plant a phobl ifanc sy'n parhau i droseddu, ar gyfer rhanbarth Bae'r Gorllewin, sydd hefyd yn cymharu'n ffafriol â chyfartaledd de Cymru, sef 44.7%, a chyfartaledd Cymru, sef 39.2%.

- Mae darpariaeth EOTAS (Addysg Heblaw yn yr Ysgol) Abertawe'n amrywiol yn ei heffeithiolrwydd ac, yn ôl asesiad Estyn (Ionawr 2015), mae angen gwella UCD Abertawe'n sylweddol. Mae cynnydd yn yr UCD wedi bod yn rhy araf, felly mae'r awdurdod lleol wedi cymryd camau gorfodi i fynd i'r afael â hyn. Mae Bwrdd Ymyrryd wedi'i sefydlu, gyda chraffu cadarn a her ychwanegol gan aelodau lleol ac mae'r Prif Weithredwr yn cyflymu'r gwelliant. Fodd bynnag, mae'r meysydd i'w datblygu'n dal i orbwyso'r nodweddion da.
- Mae galw cynyddol am ddarpariaeth EOTAS. Fodd bynnag, mae llawer o ysgolion yn rheoli ACEY yn effeithiol.
- Mae'r defnydd o ddata ar gyfer pennu targedau ac olrhain cynnydd dysgwyr, gan gynnwys monitro ymyriadau, yn anghyson ar draws darpariaeth yr UCD ac, o ganlyniad, nid yw rhai dysgwyr yn cyrraedd eu potensial.
- Mae darpariaeth Llwybrau EOTAS yn cymryd ymagwedd unigryw gyda'r bobl ifanc anosaf eu cyrraedd gyda nifer cynyddol o ddysgwyr (60.5%) yn cyflawni'r dangosydd Lefel 1 wrth adael yn 16 oed yn 2015.
- Adolygwyd cefnogaeth ar gyfer EOTAS ac ymddygiad yn 2014 a chytunwyd ar gynllun i wella darpariaeth. Mae rhoi'r cynllun ar waith, gan gynnwys ailstrwythuro EOTAS, wedi bod yn araf, ond mae'n symud ymlaen erbyn hyn.
- Mae gan yr Uned Dysgu Gydol Oes, mewn partneriaeth â Choleg Gŵyr Abertawe, rwydwaith o ddarparwyr hyfforddiant lleol, yn cynnig amrywiaeth eang o brentisiaethau sylfaenol i uwch yn y rhan fwyaf o feysydd sgiliau galwedigaethol. Mae gan yr holl ddarparwyr hyfforddiant gysylltiadau da â chyflogwyr lleol ac maent yn defnyddio deallusrwydd y farchnad waith leol i ddatblygu cynnig y cwricwlwm sy'n bodloni anghenion busnesau a chymunedau yn y rhanbarth. Yn 2014-2015, 83% oedd y cyfraddau llwyddiant fframweithiau ar gyfer rhaglenni prentisiaeth ar draws y ddarpariaeth hon.
- Mae Gwasanaeth Dysgu fel Teulu llai'n gweithio'n effeithiol mewn ysgolion wedi'u targedu mewn ardaloedd difreintiedig i gefnogi rhieni a gofalwyr i wella'u cymwysterau. Mae'r gostyngiad yn nifer y staff wedi golygu mai'r ddarpariaeth a gynigir i bob ysgol erbyn hyn yw deg wythnos. Erbyn hyn, mae ysgolion sy'n defnyddio'u Grant Amddifadedd Disgyblion (GAD) yn cael 30 wythnos o ddarpariaeth. Bydd 30 o ysgolion yn cael darpariaeth Dysgu fel Teulu ddeg wythnos yn ystod blwyddyn academaidd 2015-2016 gyda dwy ysgol yn cael y ddarpariaeth 30 wythnos. Mae'r tîm ar darged i weithio gyda 300 o deuluoedd i'w galluogi i gefnogi eu plant yn well a chyfrannu i godi safonau a dyheadau ar draws pob cyfnod allweddol.
- Mae Partneriaeth Ddysgu Abertawe'n cynnig amrywiaeth eang o gyrsiau gan ddefnyddio gwybodaeth am y farchnad waith leol i gynllunio darpariaeth ac osgoi dyblygu. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar yr ardaloedd mwyaf difreintiedig lle mae dysgwyr yn cyflawni cystal â'r rhai o'r ardaloedd lleiaf difreintiedig. Cyfradd lwyddiant y cyfranogwyr mwyaf difreintiedig yn 2014-2015 oedd 85.9%. Cyfradd lwyddiant y cyfranogwyr lleiaf difreintiedig oedd 84.5%.

- Mae amrywiaeth o gefnogaeth effeithiol i PDG wedi arwain at y deilliannau addysgol da i PDG mewn perthynas â'u deilliannau rhagweledig erbyn Cyfnod Allweddol 4. Mae'r nifer sy'n cyflawni'r trothwy Lefel 1 yn uchel gyda 80% yn cyflawni cymhwyster cydnabyddedig yn 16 oed yn 2015 (100% yn 2014).
- Mae polisïau a gweithdrefnau'r awdurdod lleol ar gyfer nodi ac olrhain plant sy'n colli addysg wedi'u defnyddio fel arfer da yn arweiniad Llywodraeth Cymru.
- Mae'r Gwasanaeth Addysg Teithwyr (GAT) yn cynnwys plant a phobl ifanc mewn addysg ac yn cefnogi anghenion y teulu/gymuned.
- Darperir cefnogaeth arbenigol, datblygiad proffesiynol a hyfforddiant rhagorol gan yr Uned Cyflawniad Lleiafrifoedd Ethnig (UCLIE). Mae plant a phobl ifanc o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig yn cael eu cynnwys yn llawn ac maent yn cyflawni safonau uchel iawn. Mae'r galw am y gwasanaeth yn fawr ac yn cynyddu.
- Mae cefnogaeth dda ar gyfer presenoldeb ar draws ysgolion cynradd ac uwchradd. Fodd bynnag, mae angen gwella ymhellach ac yn gyflymach mewn rhai ysgolion cynradd i gynyddu cyfran yr ysgolion â phresenoldeb uwchben y cyfartaledd o'i gymharu â chymaryddion grŵp meincnod cPYDd. Bydd gwella presenoldeb yn parhau i fod yn flaenoriaeth yn y Cynllun Integredig Sengl, *Un Abertawe*.
- Mae'r awdurdod lleol yn cydymffurfio'n llwyr wrth gynnig 25 awr o addysg i blant sydd wedi'u gwahardd yn barhaol.
- Mae protocol effeithiol sy'n sefydlu perthnasoedd gwaith agos rhwng y Gwasanaeth Lles Addysg a'r UCLIE.
- Mae swyddog amddiffyn plant a diogelu pwrpasol yn parhau i weithio gydag ysgolion wrth gynnig gwasanaeth ymateb ar unwaith. Targedir llywodraethwyr amddiffyn plant i fynd i hyfforddiant amddiffyn plant. Mae'r rhaglen hyfforddiant amddiffyn plant a diogelu i staff ysgolion ac addysg wedi'i sefydlu'n dda.
- Cynhaliwyd asesiad o'r mesurau diogelu sydd ar waith yn holl ysgolion Abertawe yn 2014-2015. Rhoddwyd cynllun gweithredu i'r holl ysgolion i fynd i'r afael â'r diffygion. Ni nodwyd diffygion mawr. Mae adroddiad llawn ac 21 o argymhellion wedi'u dosbarthu i ysgolion gyda mesurau wedi'u rhoi ar waith i fynd i'r afael â'r argymhellion. Targedir ysgolion ar gyfer asesiadau wedi'u diweddaru lle penodwyd penaethiaid newydd ac mae system ailymweld ar waith i gefnogi ysgolion i baratoi at arolygiadau.
- Rhoddir Proffil Asesu Bod yn Agored i Niwed (PABAN) i bob ysgol. Mae'r offeryn hwn wedi bod yn effeithiol wrth dywys ysgolion a'r Gwasanaeth Pobl Ifanc i ystyried anghenion unigol plant a phobl ifanc, gan gynnwys targedu a chael mynediad i adnoddau i wella deilliannau. Adlewyrchir yr offeryn hwn yn fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuenctid Llywodraeth Cymru.
- Roedd y gostyngiad yn nifer y bobl ifanc NEET yn Abertawe rhwng 2010 a 2012 yn llwyddiant a gydnabuwyd yn genedlaethol. Mae gan y strategaeth a ddefnyddir ffocws strategol clir, sef nodi a thargedu pobl ifanc mewn perygl, gweithio mewn partneriaeth a rhannu gwybodaeth a darpariaeth a chefnogaeth amlasiantaeth. Mae gwaith partneriaeth yr awdurdod lleol, addysg bellach (AB), sefydliadau gwirfoddol, darparwyr a Gyrfa Cymru wedi bod yn allweddol i'r llwyddiant hwn. Bu cynnydd bach yn nifer y bobl ifanc NEET yn 2013 a gwnaed gwaith i fynd i'r afael â hyn gyda ffigurau is wedi'u hadrodd yn 2014 a 2015. Yr ymagwedd unigol ynghylch pobl ifanc ddiamddiffyn rhwng sefydliadau partner a fydd yn parhau i leihau'r ffigur NEET yn 16 oed.

- Mae cydbwysedd a chydlyniant da rhwng yr amrywiaeth o wasanaethau cyffredinol ac wedi'u targedu a gynigir gan Wasanaethau Pobl Ifanc Abertawe. Blaenoriaethir lleoliad a dyraniad gwasanaethau'n ôl angen ac mae'r rhyngberthynas rhwng gwaith cyffredinol ac wedi'i dargedu wedi'i ddiffinio'n glir.
- Mae gwaith partneriaeth effeithiol rhwng y Gwasanaeth Pobl Ifanc a darparwr Cymraeg (Menter Iaith) a Chyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Abertawe i estyn cyrhaeddiad y Gwasanaeth Pobl Ifanc ymhellach.

Meysydd i'w datblygu

- Llai o alw am ddarpariaeth EOTAS a chynyddu gallu mewn ysgolion i reoli anawsterau cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol trwy rannu arfer da'n fwy effeithiol.
- Ailystyried y weledigaeth ar gyfer EOTAS yn Abertawe a chwblhau ailstrwythuro darpariaeth EOTAS.
- Gwella ansawdd darpariaeth UCD Abertawe a sicrhau bod ein holl ddysgwyr yn cyrraedd eu potensial.
- Parhau i wella presenoldeb ysgolion lle mae perfformiad yn isel ac islaw'r canolrif.
- Cynyddu gallu ysgolion i gadw plant yn y brif ffrwd heb droi at ddefnyddio gwaharddiadau cyfnod penodol.
- Datblygu'r protocol ar gyfer "symudiadau rheoledig" gydag ysgolion.
- Gwaith partneriaeth i leihau nifer y bobl ifanc NEET (yn cynnwys EOTAS) a chyfraddau gadael cyflogaeth, addysg a hyfforddiant ôl-16.
- Gwella'r wybodaeth a roddir i ddysgwyr a chyflogwyr am raglenni prentisiaeth a'r gefnogaeth arnynt a gwella'r defnydd o gynlluniau dysgu unigol.
- Mae angen cynyddu'r ddarpariaeth Gymraeg ym maes dysgu seiliedig ar waith a dysgu oedolion a chymunedau.
- Sefydlu ymagwedd gydlynol at leihau nifer y bobl NEET yn 18+ oed trwy'r Fframwaith Cynnwys Ieuenctid a Dilyniant.
- Monitro newidiadau sy'n dod i'r amlwg o ddatblygu Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid (GTI) Bae'r Gorllewin.

2.4 Mynediad a lleoedd ysgol

- Mae cynllunio da ar gyfer lleoedd ysgol. Mae rhaglen AoS 2020 yn sicrhau y cynllunnir lleoedd ysgol yn effeithiol yn Abertawe, gan gynnwys cyfranogaeth ehangach a chadarnach gan randdeiliaid.
- Mae deilliannau a manteision y rhaglen trefniadaeth ysgolion AoS 2020 bresennol wedi'u cyflwyno'n llwyddiannus.
- Mae cyflwyno Rhaglen AoS yn llwyddiannus yn dystiolaeth o hanes profedig yr awdurdod lleol o wneud penderfyniadau anodd ar gynigion trefniadaeth ysgolion.
- Mae polisi clir gan yr awdurdod lleol i ailfuddsoddi adnoddau a gaiff eu rhyddhau trwy broses AoS 2020 yn y rhaglen a bydd y cyfraniad lleol bellach yn cael ei gyflwyno trwy adolygiad o holl asedau'r cyngor.

- Mae'r fframwaith asesu cynhwysfawr a bennwyd yn y Cynllun Rheoli Asedau wedi cynnal Rhaglen Amlinellol Strategol (RhAS) yr awdurdod. Mae rhannu'r data craidd cynhwysfawr a chadarn â rhanddeiliaid wedi sicrhau tryloywder ac wedi'i gydnabod yn fodel o arfer da.
- Ychwanegodd ymgysylltu'n agos â rhanddeiliaid, wedi'i ysgogi gan y Fforwm Rhanddeiliaid a grwpiau penaethiaid a llywodraethwyr ehangach, werth at y deilliannau a'r anghenion ac opsiynau buddsoddi â blaenoriaeth a nodwyd yn y RhAS.
- Mae gwerthuso'r opsiynau a nodwyd mewn modd cynhwysfawr wedi galluogi llunio strategaeth radical a chydlynol, sy'n cefnogi gweddnewid addysgol mewn ysgolion.
- Mae Llywodraeth Cymru'n cydnabod Abertawe fel enghraifft o arfer da ym maes ymgynghori a'r weithdrefn hysbysiad statudol o ran ysgolion. Mae gan Abertawe broses gadarn a hanes o gynigion statudol cymeradwy sydd hefyd wedi'i gydnabod gan Lywodraeth Cymru.
- Mae hanes da o ddileu lleoedd dros ben yn y sector Saesneg.
- Bu cynnydd sylweddol mewn darpariaeth gynradd Gymraeg. Erys rhagor o heriau o ran ysgolion presennol ac argaeledd lleoedd i ateb y galw.
- Defnyddiwyd buddsoddiad cyfalaf sylweddol yn llwyddiannus dros y blynyddoedd diwethaf i gefnogi Dechrau'n Deg a'r Cyfnod Sylfaen, gweddnewid yr amgylchedd dysgu mewn dwy ysgol uwchradd a pharhau â'r rhaglen waith i wella cyflwr ac addasrwydd.
- Mae gan broses dderbyniadau ar-lein Abertawe ar gyfer derbyn plant i'r dosbarth Meithrin (82.98%) a Blwyddyn 7 (96.16%) gyfradd lwyddiant uchel, gan roi cyfanswm o 89.34% o'r ceisiadau a wnaed ar-lein yn 2015. Ar gyfer derbyniadau mis Medi 2016, cafodd 97.64% o ymgeiswyr cynradd i uwchradd a 99.66% o ymgeiswyr Meithrin i Dderbyn eu dewis cyntaf.

Meysydd i'w datblygu

- Sicrhau cysondeb â'r Cynllun Datblygu Lleol i ychwanegu gwerth at y strategaeth trefnu ysgolion bresennol wrth ddiwallu anghenion yn y presennol a'r dyfodol, fel rhan o ddatblygu blaenoriaethau buddsoddiad cyfalaf ym 'Mand B' Rhaglen Ysgolion ar gyfer yr 21ain Ganrif.
- Sicrhau cysondeb â'r adolygiad o asedau corfforaethol i ychwanegu gwerth trwy gyhoeddi adnoddau i gefnogi buddsoddi mewn ysgolion yn y dyfodol.
- Datblygu'r broses ymhellach ar gyfer cysylltu hunanwerthusiadau ysgolion ag amcanion a deilliannau buddsoddi.
- Gwneud defnydd effeithiol o'r lleoedd dros ben i ddiwallu anghenion penodol fel rhan o ymgyrch ehangach i ddefnyddio cyfleusterau i'r eithaf i fod o fudd i'r gymuned, lle dangosir bod hyn yn ddichonol trwy ei rinwedd ei hun.
- Datblygu symudiadau a derbyniadau yn ystod y flwyddyn nad ydynt eto wedi'u canoli.

3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?

3.1 Arweinyddiaeth

- Mae'r Cynllun Gwella Corfforaethol yn dangos yn glir sut mae amcanion gwella'r cyngor yn cyfrannu at les pobl yn Abertawe fel a bennwyd yng Nghynllun Un Abertawe a hefyd yn dangos sut mae ymrwymiadau'r polisi a fabwysiadodd y cyngor yn 2012 yn gwireddu gweledigaeth y cyngor ar gyfer Abertawe a'r deilliannau poblogaeth a ddymunir.
- Canfu asesiad corfforaethol blynyddol Swyddfa Archwilio Cymru (SAC) o Abertawe fod gweledigaeth glir o'r hyn mae'r cyngor am ei gyflawni, ac mae uwch-reolwyr yn deall hyn.
- Mae'r cyngor wedi llunio strategaeth gyfathrebu gynhwysfawr ar gyfer y cyfnod presennol o newid mawr. Rhoddwyd y cyfle i'r holl weithwyr fynd i sioeau teithiol dan arweiniad y Prif Weithredwr a chyfarwyddwyr a oedd yn cwmpasu gwerthoedd craidd a blaenoriaethau corfforaethol y cyngor, ffurf y cyngor yn y dyfodol, Rhaglen Abertawe Gynaliadwy sydd yng nghynllun tymor hir y cyngor ar gyfer newid, Cynllun Un Abertawe a Stori Abertawe – stori'r hyn mae'r ddinas yn sefyll drosto a'r hyn mae'r cyngor yn ceisio ei gyflawni yn y blynyddoedd i ddod.
- Mae'r blaenoriaethau yn y cynllun busnes addysg yn glir ac yn cefnogi cyflwyno'r agendâu corfforaethol a rhanbarthol yn dda iawn. Mae monitro cynnydd yn barhaus ac adrodd arno yng nhyd-destun camau gweithredu, targedau a dangosyddion perfformiad yn gwneud cynnydd cyson.
- Mae'r Bwrdd Gwella, a sefydlwyd gan y Prif Weithredwr yn dilyn arolygiad Estyn yr awdurdod lleol yn 2013, wedi dwyn uwch-swyddogion i gyfrif yn gyson ac yn effeithiol a sicrhau cyflymder y gwelliant.
- Mae sefydlu'r Grŵp Strategaeth Addysg (GSA) yn dangos yr ymrwymiad gwleidyddol i ysgolion ac yn cydnabod yr heriau ariannol cynyddol mae ysgolion yn eu hwynebu. Cadeirir y grŵp gan yr arweinydd a'r ffocws yw llunio strategaethau ariannol tymor byr, canolig a hir cydlynol ar gyfer addysg. Mae'r grŵp yn adrodd i Fwrdd Rhaglen ehangach Abertawe Gynaliadwy.
- Mae'r cynllunio gwella corfforaethol blynyddol yn sbarduno cynllunio busnes a gweithredu cyfarwyddiaethau, adrannau a gwasanaethau. Mae cynllunio gwella a chynllunio busnes yn hanfodol wrth gysylltu blaenoriaethau corfforaethol a chynllunio gwasanaeth ar gyfer rheoli gweithredol a chylch blaenoriaethu cyllidebol y cyngor a chynllunio ariannol tymor canolig.
- Cyflwynwyd proses rheoli perfformiad newydd ar draws y cyngor yn 2014. Yn hydref 2015, cafodd yr Adran Addysg ei hailstrwythuro a chafodd prosesau adrodd, monitro a rheoli perfformiad eu cryfhau mewn strwythur llywodraethu diwygiedig. Mae hyn wedi arwain at fwy o atebolrwydd gan reolwyr ar gyfer pob agwedd ar gynllunio, perfformiad a rheoli cyllidebol.
- Mae'r prosesau hyn ar draws yr awdurdod ac mewn cyfarwyddiaethau'n sicrhau cadernid cynllunio, pennu targedau a monitro. Mae'r holl staff yn gallu deall eu cyfraniad i gynlluniau strategol, gwasanaeth a lleol a mynegi'r rhain i ysgolion a phartneriaid eraill. Rhagwelir y bydd y trefniadau rheoli perfformiad newydd yn parhau i gyfrannu i'r deilliannau ac effeithiau cadarnhaol niferus.
- Mae prosesau ac offer sefydledig ar waith i fonitro a dadansoddi perfformiad ar lefel ysgolion a disgyblion, gan gynnwys hyfforddiant i staff ysgolion, llywodraethwyr ac ymgynghorwyr herio ym maes defnyddio data. Mae hyn yn arwain at welliant parhaus o ran herio ac ymyrryd i dargedu cefnogaeth ar gyfer cyrhaeddiad disgyblion a chodi safonau i'r holl ddisgyblion yn y ffordd orau.

- Mae dangosyddion perfformiad addysg allweddol yn parhau i ddangos tueddiadau gwella, yn enwedig yn yr L2g sydd 6% (dros dro) yn uwch ar gyfer Abertawe na Chymru. Mae'r perfformiad cryf yn y sector uwchradd wedi'i gynnal dros y pum mlynedd diwethaf ac mae'r holl bynciau craidd yn perfformio'n well na'r cyfartaledd cenedlaethol.
- Mabwysiadwyd Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP) gan y cyngor ym mis Medi 2013 i fod yn rhan o fframwaith polisi'r cyngor. Yn ôl hyn, mae'n rhaid i'r Cabinet roi 'ystyriaeth briodol' i CCUHP wrth wneud penderfyniadau er mwyn iddo gael ei sefydlu ar draws y cyngor mewn polisi ac arfer. Mae CCUHP wedi'i gynnwys ym mhroses Asesiad Effaith Cydraddoldeb bresennol y cyngor sy'n elfen allweddol o'r protocol adrodd corfforaethol sy'n cwmpasu pob adroddiad i'r Bwrdd Gweithredol, y Cabinet a'r cyngor.
- Un o bum blaenoriaeth bwysicaf y cyngor yw cyrhaeddiad addysgol. Mae hyn yn dangos bod gweledigaeth ac uchelgeisiau clir i blant a phobl ifanc sy'n canolbwyntio ar roi'r cyfle i'r holl blant a phobl ifanc ddatblygu i'w potensial llawn. Adlewyrchir hyn ym mlaenoriaethau'r Cabinet ar gyfer addysg.
- Mae'r aelodau etholedig yn craffu blaenoriaethau addysgol yn effeithiol a phob agwedd ar berfformiad addysg mewn ysgolion a darpariaeth gwasanaeth addysg. Cafodd y Prif Weithredwr adborth cadarnhaol gan Estyn ynghylch gweithgarwch ac effaith y Panel Craffu Perfformiad Ysgolion. Ystyrir data monitro perfformiad y cyngor cyfan yn chwarterol yng nghyfarfod y Panel Craffu Gwella Gwasanaethau a Chyllid. (Dywedodd SAC fod strwythur craffu'r cyngor yn galluogi ymagwedd hyblyg â ffocws. Disgrifiodd AGGCC y trefniadau craffu ar gyfer Gwasanaethau Plant a Theuluoedd fel 'effeithiol a chadarn'.)
- Mae Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg 2014-2017 (CSGA) Abertawe'n gynllun cadarn sy'n dangos ymroddiad cryf i ddatblygu a gwella'r Gymraeg mewn Addysg. Roedd yn un o dri chynllun yn unig i'w dderbyn gan Lywodraeth Cymru heb ddiwygiadau.
- Mae'r Bwrdd PPI wedi'i atgyfnerthu a bydd cynllun partneriaeth newydd ar gyfer plant a phobl ifanc yn cael ei lunio mewn fformat tebyg i Raglen Plant a Phobl Ifanc Llywodraeth Cymru.

Meysydd i'w datblygu

- Sefydlu Bwrdd Arweinwyr Strategol (BAS) yr Adran Addysg yn llawn gan fod y Pennaeth Gwasanaeth Cefnogi Dysgwyr bellach yn ei swydd (o fis Mawrth 2016). Sefydlu'r strwythur llywodraethu newydd yn llwyr trwy BAS, Uwch-dîm Arweinyddiaeth Addysg (UDAA) a grwpiau a byrddau rhanddeiliaid allweddol, ymgynghorol a monitro.
- Parhau i ddatblygu gwelliannau ysgolion rhanbarthol. Dan ERW, mae'r gwasanaeth wedi datblygu'n gadarnhaol ac mae ysgolion yn dod i arfer yn fwy â'r system gategoreiddio genedlaethol.
- Mae Partneriaeth Ddysgu Abertawe dan adolygiad.
- Cynllun Plant a Phobl Ifanc i'w ddatblygu i gyfuno gwaith partneriaeth i gynnwys deddfwriaeth, polisïau, rhaglenni, dangosyddion deilliannau ac erthyglau CCUHP, gan roi pwyslais ar y pedair egwyddor arweiniol a sut maent yn gymwys.

3.2 Gwella Ansawdd

- Er gwaethaf toriadau cyllidebol dros y ddwy flynedd diwethaf, mae Adroddiad Asesu Corfforaethol SAC 2015 yn cydnabod bod gwasanaethau a ddarperir gan staff y cyngor ar y blaenoriaethau sydd o bwys i bobl Abertawe'n parhau i wella. Mae hefyd yn nodi bod y trefniadau llywodraethu'n gadarn a bod y cyngor yn gwella mynediad i wybodaeth am ein gweithgarwch craffu.
- Ymdriniwyd ag argymhellion Estyn yn dilyn yr arolygiad yn 2013 trwy gamau gweithredu yng Nghynllun Busnes Addysg 2014-2015 a 2015-2016. Mae camau gweithredu allweddol yn cael eu monitro'n dymhorol a darperir adroddiadau rheolaidd i Fwrdd Gwella'r Prif Weithredwr.
- Mae'r fframwaith cynllunio a rheoli busnes cadarn a sefydlwyd ym mis Ionawr 2014 yn parhau. Mae materion perfformiad yn cael eu nodi, eu blaenoriaethu a'u datrys mewn ffordd strwythurol, effeithiol ac amserol. Mae pennu targedau bellach yn fwy heriol. Mae'r ymagwedd hon wedi arwain at gynnydd da argymhellion yn 1, 2 a 3 arolygiad 2013. Bu cynnydd cyson ynghylch argymhelliad 5 er bod cynnydd mewn perthynas ag argymhelliad 4 wedi bod yn araf.
- Dylai'r trefniadau llywodraethu a rheoli newydd a roddwyd ar waith yn hydref 2015 alluogi cyfradd ddatblygu well wrth symud ymlaen.
- Mae cynlluniau busnes o safon ar waith. Mae'r rhain yn helpu i gymell gwaith yr Adran Addysg ac mae ganddynt gysylltiad agos â chyflwyno deilliannau disgyblion gwell. Mae'r cynlluniau hyn yn cael eu monitro'n dymhorol ac mae tanberfformiad yn cael ei herio a'i ddatrys.
- Mae trefniadau da ar waith bellach i gefnogi a herio ysgolion o ganlyniad i graffu ar safonau, darpariaeth ac arweinyddiaeth yn well. Caiff tanberfformiad a ffactorau risg mewn ysgolion eu nodi'n gyflym bellach, ac eir i'r afael â hwy ar gam cynharach. Mae datblygu categoreiddio cenedlaethol wedi golygu y gellir gwneud cymariaethau cenedlaethol ehangach yn fwy cyson.
- Caiff perfformiad ysgolion ei fonitro trwy amrywiaeth o ffyrdd. Mae hyn yn cynnwys ymweliadau ymgynghorwyr herio ag ysgolion a dadansoddi data. Mae'r wybodaeth hon yn helpu i lunio barn am berfformiad cyfredol ysgolion a'r gallu i wella.
- Mae'r trefniadau craffu wedi'u cryfhau ymhellach a chydnabyddir yn rhanbarthol eu bod yn gryf ac yn effeithiol. Mae'r trefniadau'n gwella dulliau llywodraethu eraill y cyngor.
- Mae'r ysgolion y mae angen y gefnogaeth fwyaf arnynt i wella'n cael eu herio, yn bersonol, gan y Prif Swyddog Addysg, trwy graffu ym Mwrdd Gwella'r Prif Weithredwr a'r Panel Craffu Perfformiad Ysgolion ac mae Uwch-grŵp Rheoli'r Adran Addysg yn ymweld â hwy.
- Mae'r data a'r dadansoddiadau a ddarperir i swyddogion ac ysgolion yn nodweddion rhagorol ac wedi cyfrannu'n uniongyrchol i godi safonau. Mae'r rheoli gwybodaeth a data rhagorol sydd ar gael yn Abertawe wedi hwyluso nodi materion perfformiad a phryderon eraill.
- Mae'r Proffil Asesu Bod yn Agored i Niwed yn enghraifft dda o ddatblygiad y mae gwasanaethau yn ogystal ag ysgolion wedi elwa'n fawr arno.
- Mae data perfformiad disgyblion yn destun craffu gan y Cabinet a'r aelodau etholedig ac yn cefnogi nodi meysydd ar gyfer gweithredu.

- Mae gwelliannau arfaethedig a datblygiadau gwasanaethau wedi'u cyflwyno'n llwyddiannus trwy brosesau monitro perfformiad ac ariannol (MPA) aeddfed ar draws yr holl gyfarwyddiaethau.
- Mae ymarfer blynyddol, sef diweddaru cynlluniau gweithredu lefel gwasanaeth dan y Cynllun Busnes Addysg, cyfarfodydd tîm a chyfarfodydd un i un (cyfarfodydd dwyochrog) yn galluogi rheolwyr llinell a staff i godi pryderon ynghylch perfformiad a chyfrifoldebau unigol.
- Caiff gwasanaethau a gomisiynwyd a CLG eu monitro a'u gwerthuso'n rheolaidd.
- Mae perthnasoedd ag ysgolion yn gyffredinol dda. Mae cyfarfodydd penaethiaid rheolaidd a'r grwpiau partneriaeth yn y strwythur ymgynghorol a amlinellir yn y Cytundeb Partneriaeth Ysgolion/ALl yn creu dull effeithiol ar gyfer codi materion a chytuno ar gamau gweithredu i fynd i'r afael â hwy.
- Mae Grŵp Cyfnod Sylfaen y Blynyddoedd Cynnar yn cyflawni gwaith pontio yn Abertawe o Ddechrau'n Deg i'r ysgol ac o'r feithrinfa i'r ysgol. Eu ffocws yw parodrwydd y plentyn a'r teulu ar gyfer yr ysgol a chynnal ansawdd y gefnogaeth trwy gydol y cyfnod hwn.

Meysydd i'w datblygu

- Adolygu cost-effeithiolrwydd y gwasanaethau a gomisiynir i blant a phobl ifanc yn llawn.
- Rhannu arfer da trwy gefnogaeth o ysgol i ysgol ar draws y cyngor a'r rhanbarth.
- Adolygu darpariaeth ar gyfer y dyfodol trwy'r Grŵp Strategaeth Addysg.
- Prosiectau peilot ar gyfer pontio'r Cyfnod Sylfaen sy'n canolbwyntio ar barodrwydd ar gyfer yr ysgol.

3.3 Gwaith partneriaeth

- Mae cynllun integredig sengl Abertawe, *Un Abertawe*, yn rhoi cyfeiriad eglur a blaenoriaethau i'r holl bartneriaethau ym Mwrdd Gwasanaethau Lleol Abertawe.
- Mae'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol yn effeithiol ac yn rhagweithiol wrth ddatblygu ei flaenoriaethau a nodwyd, gan gynnwys ei ffocws yn y gorffennol ar leihau nifer y bobl NEET a'i ffocws presennol ar Atal ac Ymyrryd yn Gynnar.
- Mae partneriaeth effeithiol i leihau pobl NEET trwy waith Gwasanaeth Ieuenctid y cyngor a thîm *Cadw mewn Cysylltiad* Gyrfa Cymru a oruchwylir gan y Bwrdd Pobl NEET. Enillodd y gwaith ar y cyd ar bobl NEET wobr y Sefydliad Datblygu Gofalwyr yn hydref 2015.
- Yn 2010, dyrannwyd aelod o'r Rhwydwaith Dinasoedd Iach Ewropeaidd i'r awdurdod lleol a'i bartneriaid gyda ffocws penodol ar amgylcheddau gofalgar a chefnogol, byw'n iach ac amgylchedd a dylunio trefol iach. Dinasoedd Iach yw'r sail ar gyfer Cynllun *Un Abertawe*. Cafodd aelodaeth o'r Rhwydwaith Dinasoedd Iach Ewropeaidd ei hailgadarnhau yn 2014.
- Ym mis Hydref 2013, rhanbarth Bae Abertawe oedd yr unig ddinas yn y DU i fod yn rhan o gynllun peilot UNESCO, Dinasoedd Dysg Byd-eang. Mae Partneriaeth Ddysgu Abertawe'n cydgysylltu â Phrifysgol Abertawe sy'n arwain hyn. Y thema allweddol yw entrepreneuriaeth. Mae'n cynnwys pob agwedd addysgol ar bob lefel a cham, o ysgolion, addysg bellach, addysg uwch a dysgu seiliedig ar waith

trwy gyfleoedd dysgu gydol oes. Cafodd Abertawe wobr Dinas Dysg Fyd-eang UNESCO ar gyfer cynnydd da yn 2015 a chyhoeddwyd astudiaeth achos yn dilyn yr ail gynhadledd fyd-eang ym Mecsico ym mis Hydref 2015.

- Mae'r awdurdod lleol yn gwneud cyfraniadau adeiladol i ystod o bartneriaethau amlasiantaeth, er enghraifft Bwrdd Diogelu Plant Bae'r Gorllewin ar drefniad rhanbarthol Bae'r Gorllewin, sef y Grŵp Strategaeth Anabledd, Grŵp Strategol PDG, gwasanaeth ar y cyd â sefydliadau iechyd ar gyfer anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu (ALIICh), a ffrydiau gwaith ataliaeth Abertawe Gynaliadwy.
- Mae cytundeb cyd-bwyllgor ffurfiol rhwng y chwe awdurdod lleol yn ERW i wella ysgolion. Mae hyn yn cynnwys cydgynllunio i fodloni gofynion Llywodraeth Cymru ar ddefnyddio'r GGA.
- Mae gwaith partneriaeth da ar gyfer gwella ysgolion wedi arwain at gynnwys ysgolion wrth lunio strategaethau i ymdrin â blaenoriaethau awdurdod lleol trwy grwpiau gan gynnwys Partneriaeth Ddysgu Abertawe, Partneriaeth Gwella Ysgolion, Partneriaeth Addysg Gymraeg Abertawe, Cynhwysiad Addysg a Grŵp Trawsgyfnod AAA, Fforwm Derbyn a Fforwm Cyllideb Ysgolion.
- Darperir cefnogaeth dda ar gyfer y Gymraeg mewn addysg trwy Bartneriaeth Addysg Gymraeg Gbertawe a'i phartneriaid ehangach, er enghraifft, ym maes addysg bellach ac uwch.
- Mae anghenion pobl ifanc yn cael eu diwallu trwy gynnig cwricwlwm eang o ddarpariaeth ôl-16 trwy waith partneriaeth lleol, gan gynnwys darpariaeth Gymraeg.
- Mae cytundebau partneriaeth effeithiol ar waith rhwng y Gwasanaeth Pobl Ifanc a darparwr Cymraeg (Menter Iaith) a Chyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Abertawe i ehangu darpariaeth ieuenctid Gymraeg.
- Ym mis Medi 2013, Dinas a Sir Abertawe oedd yr unig awdurdod lleol yn y DU i fabwysiadu Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP) yn ffurfiol yn ei fframwaith polisi. Ym mis Tachwedd 2014, lansiodd Cyngor Abertawe ei Gynllun Hawliau Plant a Phobl Ifanc sy'n pennu'r trefniadau y mae'r awdurdod lleol wedi'u rhoi ar waith i gydymffurfio â'r ddyletswydd hon.

Meysydd i'w datblygu

- Ymagwedd amlasiantaeth at gyflawni'r her a fydd yn codi o'r diwygiadau sydd ar ddod i'r asesiad AAA statudol.
- Parhau i sefydlu CCUHP a gwella ymgynghori â phlant a phobl ifanc.
- Parhau i sefydlu'r Fframwaith Cynnwys Ieuenctid a Dilyniant.

3.4 Rheoli adnoddau

- Nododd adroddiad SAC 2015 fod gan y cyngor hanes cryf o ran rheoli ei gyllideb yn effeithiol a bod ganddo drefniadau cynhwysfawr sefydledig ar gyfer rheoli'r heriau ariannol y byddwn yn eu hwynebu yn y dyfodol. Mewn perthynas â rhaglen 'Abertawe Gynaliadwy – Yn Addas ar gyfer y Dyfodol', mae'n dweud bod y cyngor wedi ymateb yn effeithiol i her rheoli dyfodol lle bydd yr adnoddau sydd ganddo i ddiwallu anghenion lleol yn cael eu lleihau'n sylweddol.

- Mae'r Adran Addysg wedi mynd trwy waith ailstrwythuro rheoli fel rhan o gynllunio gweithlu ehangach er mwyn canolbwyntio ar y meysydd blaenoriaeth pwysicaf, cael digon o allu i ymaddasu er mwyn bodloni dyletswyddau statudol craidd, sicrhau cynllunio olyniaeth cadarn a rhoi atebolrwydd cynyddol i reolwyr am eu meysydd cyllideb.
- Mae'r strategaeth gyllidebol 'Un Addysg' yn rhoi cynllun ariannol tymor canolig, gan gyflwyno strategaeth ariannol gyson i flaenoriaethu'r gyllideb ysgolion ddirprwyedig a meysydd cefnogi penodol i ddisgyblion yn y gyllideb annirprwyedig.
- Mae'r ffocws ar flaenoriaethu'r gyllideb ysgolion ddirprwyedig a'r gwasanaethau cefnogi disgyblion; gwasanaethau statudol dros rai dewisol, effeithlonrwydd a chostau ailstrwythuro ac adfer o grantiau wedi parhau a galluogi'r Adran Addysg i gyflwyno ar dargedau cyfleoedd arbed a nodwyd yn unol â'r agenda gorfforaethol.
- Mae cynnwys rhanddeiliaid yn allweddol yn parhau i fod yn sail i'r strategaeth trwy'r Fforwm Cyllideb Ysgolion ac is-grwpiau (yn enwedig y Grŵp Cyllid ar y Cyd), sydd wedi cefnogi proses herio ac adolygu gadarn yn llwyr ar gyfer yr holl feysydd cyllideb yn y gwasanaeth addysg ynghyd â'r Grŵp Strategaeth Addysg.
- Ar ben hynny, mae ymrwymiad gwleidyddol yr arweinydd i ysgolion wedi arwain at sefydlu'r Grŵp Strategaeth Addysg wrth gydnabod yr heriau ariannol cynyddol mae ysgolion yn eu hwynebu. Cadeirir y grŵp gan yr arweinydd a'r ffocws yw llunio strategaethau ariannol tymor byr, canolig a hir cydlynol ar gyfer addysg. Mae'r grŵp yn adrodd i Fwrdd ehangach Rhaglen Abertawe Gynaliadwy.
- Mae canoli rheoli grantiau wedi arwain at arbedion effeithlonrwydd a chydlynu a chydnerthu gwell yn y dyfodol.
- Mae adolygu ac ailstrwythuro gwasanaethau'n parhau, cafodd y Gwasanaeth Iaith a Chyflawniad Lleiafrifoedd Ethnig ei ailstrwythuro'n ddiweddar yn dilyn gostyngiad mewn ffrydiau ariannu grantiau Llywodraeth Cymru.
- Mae llwyddiant parhaol wrth gyflwyno cynigion ar gyfer adnoddau cyfalaf ac wrth gyflwyno prosiectau pwysig. Canmolodd Adolygiad Porth yn 2015 y modd y caiff rhaglen trefniadaeth ysgolion AoS ei rheoli yn Abertawe ac mae argymhellion o'r adolygiad wedi'u rhoi ar waith. Mae'r rhain yn cynnwys gwella'r arfer da ymhellach ym maes cynnwys rhanddeiliaid, cynyddu adnoddau cefnogi rhaglenni a phrosiectau, adolygu cymhorthion rheoli prosiectau, cyflwyno methodoleg risgiau, rhagdybiaethau, materion a dibyniaethau (RRhMD) ac adolygu'r trefniadau llywodraethu rhaglenni. Bydd hyn yn gwella cyfeiriad strategol ymhellach wrth symud ymlaen ac elfen cyflwyno'r rhaglen.
- Ar hyn o bryd, mae adolygiad sylfaenol a chadarn o bob CLG i sicrhau y caiff yr holl gostau eu hadfer a bod ffocws clir ar gyflwyno a pherfformiad i'r cleient. Mae digonolrwydd, addasrwydd a pherfformiad CLG yn cael eu hadolygu gan y Fforwm Cyllideb Ysgolion ac is-grwpiau. Mae CLG y cyngor yn parhau i fod yn boblogaidd iawn.
- Fel rhan o'r adolygiad o'r fformiwlâu ariannu i sicrhau eu bod yn parhau i fod yn 'addas at y diben', mae rhagor o gyfleoedd i ddirprwyo cyllid a chyfrifoldebau ysgolion yn cael eu nodi.
- Mae'n ofynnol i ysgolion â diffygion geisio cymeradwyaeth gan y swyddog adran 151 ar gyfer unrhyw ddiffyg rheoledig a fydd yn cynnwys datblygu a chymeradwyo cynllun adfer, gyda chefnogaeth lawn swyddogion cyllid. Mae

cyflwyno cynllun adfer yn cael ei fonitro'n agos ac adroddir ar faterion yn rheolaidd trwy brosesau monitro perfformiad ac ariannol.

- Mae ysgolion â balansau gwarged gormodol yn cael eu herio'n gyson o ran y cyfiawnhad am lefel y cronfeydd wrth gefn maent yn dewis eu cadw. Mae llawer o ysgolion yn bwriadu defnyddio cronfeydd wrth gefn i liniaru heriau ariannol y tair blynedd nesaf.
- Trwy gydweithio effeithiol â Thîm Cludiant y cyngor, mae arbedion sylweddol wedi'u cyflawni o ran cludiant rhwng y cartref a'r ysgol.
- Mae'r prosesau monitro perfformiad ac ariannol (MPA) ar draws yr holl gyfarwyddiaethau a monitro rhaglenni a phrosiectau corfforaethol allweddol yn sicrhau rheoli adnoddau da.

Meysydd i'w datblygu

- Datblygu a chyflwyno strategaeth ariannol addysg tymor canolig effeithiol ar gyfer 2016-2017 a 2017-2018 a'r tu hwnt, gan gynnal y gwelliant mewn deilliannau dysgwyr.
- Trawsnewid sut y cyflwynir gwasanaethau'r cyngor sy'n weddill yn sgîl gostyngiad cyffredinol mewn cyllid i awdurdodau lleol a'r cynnydd mewn dirprwyo cyllid a chyfrifoldebau i ysgolion.
- Fel rhan o reoli'n hadnoddau'n gynaliadwy ac wrth i adnoddau canolog y cyngor leihau gyda mwy a mwy o ddirprwyo i ysgolion, bydd y cyngor yn cefnogi rhagor o gefnogaeth o ysgol i ysgol a chydweithio i ddysgu a chefnogi ei gilydd.
- Cwblhau adolygiad cyllideb sylfaenol ar raglen dreigl o holl weithgarwch yr Adran Addysg i herio'r deilliannau a'r gwerth am arian yn unol â ffrwd waith effeithlonrwydd Abertawe Gynaliadwy.
- Yn unol â ffrydiau gwaith Rhaglen Abertawe Gynaliadwy, archwilio a datblygu cyfleoedd adfer costau a masnacholi.
- Mae'r rhaglen datblygu hyfforddiant arweinyddiaeth a rheolaeth arfaethedig ar gyfer UDAA yn 2016 yn cynnwys datblygiad ym maes rheoli adnoddau a dylai gefnogi rheolwyr ymhellach i reoli cyllidebau ac adnoddau'n effeithiol.

Atodiad 1 Crynodeb Perfformiad

Dangosydd Pynciau Craidd (DPC) CA 1/Dangosydd y Cyfnod Sylfaen

DPC	2009	2010	2011
Abertawe	82.3%	81.3%	81.7%
Cymru	81.1%	81.6%	82.7%
Safle	7	15	15

C. Sylfaen				2012	2013	2014	2015
Abertawe				77.6%	80.1%	83.9%	86.2%
Cymru				80.5%	83.0%	85.2%	86.8%
Safle				19	21	17	15

Dangosydd Pynciau Craidd (DPC) Cyfnod Allweddol 2							
	2009	2010	2011	2012	2013	2014	2015
Abertawe	73.9%	77.4%	80.8%	83.6%	84.3%	87.3%	89.2%
Cymru	74.2%	78.2%	80.0%	82.6%	84.3%	86.1%	87.7%
Safle	14	17	12	10	13	9	8

Dangosydd Pynciau Craidd (DPC) Cyfnod Allweddol 3							
	2009	2010	2011	2012	2013	2014	2015
Abertawe	57.9%	61.6%	68.4%	73.3%	76.4%	80.6%	83.2%
Cymru	61.3%	63.7%	68.0%	72.5%	77.0%	80.1%	83.9%
Safle	18	14	11	12	14	14	14

Presenoldeb						
Cynradd	2009-2010		2010-11		2011-12	
	Presenoldeb	Absenoldebau anawdurdodedig	Presenoldeb	Absenoldebau anawdurdodedig	Presenoldeb	Absenoldebau anawdurdodedig
Abertawe	92.3	0.7	93%	0.6	93.3%	0.5
Cymru	93.1	1.0	93.1	0.8	93.8%	0.7
Safle	18	11	Cyd. 16	8	17	10

Cynradd	2012-13		2013-14		2014-15	
	Presenoldeb	Absenoldebau anawdurdodedig	Presenoldeb	Absenoldebau anawdurdodedig	Presenoldeb	Absenoldebau anawdurdodedig
Abertawe	93.0%	0.6	94.4%	1.4	94.9%	1.2
Cymru	93.7%	0.9	94.8%	1.0	94.9%	1.0
Safle	Cyd. 20[fed]	6	Cyd. 18[fed]	20	11	18

Uwchradd	2009-2010		2010-11		2011-12	
	Presenoldeb	Absenoldebau anawdurdodedig	Presenoldeb	Absenoldebau anawdurdodedig	Presenoldeb	Absenoldebau anawdurdodedig
Abertawe	90.6%	2.0%	91%	1.6	92.0%	1.4%
Cymru	91.1%	1.6%	92.4%	1.5	92.2%	1.4%
Safle	16	18	Cyd. 16[eg]	Cyd. 1[af]	15	15

Uwchradd	2012-13		2013-14		2014-15	
	Presenoldeb	Absenoldebau anawdurdodedig	Presenoldeb	Absenoldebau anawdurdodedig	Presenoldeb	Absenoldebau anawdurdodedig
Abertawe	92.3%	1.1	93.3%	1.2	94.0%	1.1%
Cymru	92.6%	1.3	93.6%	1.3	93.8%	1.3%
Safle	15	12	16	Cyd. 14eg	10	10

Cyfnod Allweddol 4

Trothwy Lefel 1							
	2009	2010	2011	2012	2013	2014	2015
Abertawe	86.1%	88.5%	90.8%	92.8%	93.8%	95.5%	96.7%
Cymru	88.2%	89.7%	90.3%	91.8%	93.2%	94.0%	94.4%
Safle	20	18	13	9	10	9	6

Trothwy Lefel 2							
	2009	2010	2011	2012	2013	2014	2015
Abertawe	59.9%	63.4%	65.8%	74.6%	79.3%	85.4%	88.9%
Cymru	60.6%	63.7%	67.3%	72.6%	77.8%	82.3%	84.1%
Safle	11	11	14	11	11	10	5

Trothwy Lefel 2 gan gynnwys llwyddo mewn TGAU Gymraeg (iaith gyntaf) neu Saesneg a Mathemateg							
	2009	2010	2011	2012	2013	2014	2015
Abertawe	49.2%	52.1%	53.2%	54.6%	55.3%	59.1%	64.0%
Cymru	47.2%	49.4%	50.1%	51.1%	52.7%	55.4%	57.9%
Safle	10	5	7	8	9	7	3

Sgôr pwyntiau cyfartalog ehangach							
	2009	2010	2011	2012	2013	2014	2015
Abertawe	351.2	372.3	423.5	470.4	525.3	559.6	578
Cymru	378.8	394.0	422.9	465	501.2	524.5	530.7
Safle	20	17	12	13	9	6	5

Sgôr pwyntiau wedi'i chapio							
	2009	2010	2011	2012	2013	2014	2015
Abertawe		303.9	313.9	328.8	338.9	349.7	358.4
Cymru		305.1	311.6	323.5	333.1	340.8	343.5
Safle		13	11	10	10	10	4

Dangosydd pynciau craidd (DPC) yng Nghyfnod Allweddol 4							
	2009	2010	2011	2012	2013	2014	2015
Abertawe	48.0%	50.7%	51.8%	52.5%	52.9%	56.0%	54.8%
Cymru	46.0%	48.0%	48.7%	48.9%	49.2%	52.6%	5
Safle	8	6	6	8	6	8	60.6%

Y disgyblion ysgol 15 oed sy'n gadael addysg amser llawn heb gymhwyster cydnabyddedig							
	2009	2010	2011	2012	2013	2014	2015
Abertawe	1.6%	0.9%	0.43%	0.38%	0.1%	0.9p	
Cymru	0.9%	1.4%	0.6%	0.4%	0.3%	1.1P	
Safle	21	Cyd. 15fed	Cyd. 9fed	16	Cyd. 7fed	Heb ei gyhoeddi	Heb ei gyhoeddi

Pobl NEET yn 16 oed Dull cyfrifo Abertawe – dim cymharydd *(Dull Cymru, cymharol)*							
	2009	2010	2011	2012	2013	2014	2015
Abertawe	6.7% *(6.4%)*	4.2% *(4.2%)*	3.1% *(3.1%)*	2.9% *(3.2%)*	3.2% *(3.9%)*	3.7%p *(3.5%)*	
Cymru	*(5.7%)*	*(5.4%)*	*4.4%*	*(4.2%)*	*(3.7%)*	*(3.1%)*	
Safle	*(16eg)*	*(8fed)*	*(5ed)*	*(9fed)*	*(15fed)*	*(Cyd. 17eg)*	

Perfformiad grwpiau o ddisgyblion

Dangosydd y Cyfnod Sylfaen

Grŵp	Lefel	2013	2014	2015	Cyfartaledd	Tuedd
Pob un	D5+	80.1	84.0	86.2	83.4	6.1
Bechgyn	D5+	75.2	79.3	82.7	79.1	7.5
Merched	D5+	85.4	88.8	89.7	88.0	4.3
Bwlch rhwng y rhywiau	D5+	-10.3	-9.5	-7.0	-8.9	-3.3
PYDd	D5+	65.1	72.3	74.2	70.5	9.1
Dim PYDd	D5+	84.3	87.0	89.4	86.9	5.1
Bwlch PYDd	D5+	-19.2	-14.7	-15.2	-16.4	-4.0
GYM	D5+	46.9	53.2	59.1	53.1	12.2
Pob un	D6+	17.1	23.5	24.7	21.8	7.6
Presenoldeb		93.0	94.4	94.9	94.1	1.9

Dangosydd pynciau craidd yn CA2

Grŵp	Lefel	2013	2014	2015	Cyfartaledd	Tuedd
Pob un	L4+	84.3	87.3	89.2	86.9	4.9
Bechgyn	L4+	80.2	83.9	86.4	83.5	6.2
Merched	L4+	88.4	91.0	92.4	90.6	4.0
Bwlch rhwng y rhywiau	L4+	-8.2	-7.1	-6.0	-7.1	-2.2
PYDd	L4+	70.0	72.0	76.6	72.9	6.6
Dim PYDd	L4+	88.2	90.9	92.2	90.4	4.0
Bwlch PYDd	L4+	-18.2	-18.9	-15.6	-17.6	-2.6
GYM	L4+	53.3	67.2	66.2	62.2	12.9

Pob un	L5+	24.7	25.7	29.7	26.7	5.0
Presenoldeb		93.0	94.4	94.9	94.1	1.9

Dangosydd pynciau craidd yn CA3

Grŵp	Lefel	2013	2014	2015	Cyfartaledd	Tuedd
Pob un	L5+	76.4	80.6	83.2	80.1	6.8
Bechgyn	L5+	71.7	77.8	79.9	76.5	8.2
Merched	L5+	81.7	83.6	86.5	83.9	4.8
Bwlch rhwng y rhywiau	L5+	-10.0	-5.8	-6.6	-7.5	-3.4
PYDd	L5+	52.6	59.5	67.6	59.9	15.0
Dim PYDd	L5+	83.0	85.3	87.1	85.1	4.1
Bwlch PYDd	L5+	-30.4	-25.8	-19.5	-25.2	-10.9
GYM	L5+	37.4	49.0	59.1	48.5	21.7
Pob un	L6+	29.1	36.9	37.1	34.4	8.0
Presenoldeb		92.3	93.3	94.0	93.2	1.7

Lefel 2 gynhwysol (L2g) yn CA4

Grŵp	Lefel	2013	2014	2015	Cyfartaledd	Tuedd
Pob un	L2g	55.0	59.1	62.3	58.8	7.3
Bechgyn	L2g	50.1	54.0	59.0	54.4	8.9
Merched	L2g	60.4	64.5	65.7	63.5	5.3
Bwlch rhwng y rhywiau	L2g	-10.3	-10.5	-6.7	-9.2	-3.6
PYDd	L2g	27.7	27.2	37.7	30.9	10.0
Dim PYDd	L2g	62.6	66.7	69.5	66.3	6.9
Bwlch PYDd	L2g	-34.9	-39.5	-31.8	-35.4	-3.1
GYM	L2g	19.8	22.6	32.5	25.0	12.7
Pob un	5 A*-A cyn.		10.3	12.1	11.2	12.1
Presenoldeb		92.3	93.3	94.0	93.2	1.7

ÔI-16

Trothwy Lefel 3 %							
	2009	2010	2011	2012	2013	2014	2015
Abertawe	94.7	94.5	97.0	95.7	97.4	96.8	96.8
Cymru	96.0	94.9	96.3	96.9	96.5	97.1	96.9
Safle							

Sgôr pwyntiau Lefel 3							
	2009	2010	2011	2012	2013	2014	2015

Abertawe	696.4	729.3	778.0	737.9	769.2	690.8	691.3
Cymru	687.7	747.9	798.9	772.9	806.6	804.1	787.2
Safle							

Profion Cenedlaethol (Blynyddoedd 2 - 9 wedi'u cyfuno)

Profion Darllen Cenedlaethol – Saesneg – Sgorau safonedig						
	2014 85+	2014 115+	2015 85+	2015 115+	2016 85+	2016 115+
Abertawe	84.9	17.8	85.5%	18.7%		
Cymru	83.2	16.5	83.5%	16.6%		
Safle	6	7	5	4		

Profion Darllen Cenedlaethol – Cymraeg – Sgorau safonedig						
	2014 85+	2014 115+	2015 85+	2015 115+	2016 85+	2016 115+
Abertawe	84.5	15.6	84.8%	14.0%		
Cymru	84.4	17.5	84.6%	17.1%		
Safle	13	13	9	14		

Profion Rhifedd Cenedlaethol - Sgorau safonedig				
	2014 Gweithdrefnol 85+	2014 Gweithdrefnol 115+	2015 Gweithdrefnol 85+	2015 Gweithdrefnol 115+
Abertawe	84.7	18.9	86.7%	20.3%
Cymru	82.8	15.5	84.2%	16.0%
Safle	9	5	8	3

Profion Rhifedd Cenedlaethol - Sgorau safonedig				
	2014 Rhesymu 85+	2014 Rhesymu 115+	2015 Rhesymu 85+	2015 Rhesymu 115+
Abertawe	84.5	17.3	88.3%	20.6%
Cymru	82.2	14.8	85.6%	16.8%
Safle	8	7	6	5

Gwaharddiadau parhaol a chyfnod penodol o ysgolion uwchradd

Gwaharddiadau parhaol (cyfradd fesul 1,000 o ddisgyblion)							
	2009	2010	2011	2012	2013	2014	2015
Abertawe	0.9	0.55	0.2	0.29	(0-0.5 2 - rhy isel i'w gyhoeddi)	0.41 (5 - pob ysgol uwchradd)	0.50 (6 - pob ysgol uwchradd)
Cymru	0.9	0.8	0.7	0.5	0.5	Heb ei gyhoeddi	
Safle	9	Cyd. 12fed	9	Cyd. 15fed	Cyd. 6ed		

Cyfnod penodol pum niwrnod neu lai (cyfradd fesul 1,000 o ddisgyblion)							
	2009	2010	2011	2012	2013	2014	2015

Abertawe	71.0	62.3	63.4	54.7	45.1	21.8 (uwchradd)	
Cymru	68.6	66.4	67.7	66.6	57.2	26.7	
Safle	17	13	14	10	9	10	

Cyfnod penodol o chwe diwrnod neu fwy (cyfradd fesul 1,000 o ddisgyblion)							
	2009	2010	2011	2012	2013	2014	2015
Abertawe	7.8	5.8	6.9	6.5	6.1	1.6 (uwchradd)	
Cymru	6.4	6.3	6.0	5.3	4.0	1.6	
Safle	15	12	14	16	18	9	

Rhestr termau

AAA	Anghenion Addysgol Arbennig
AAABA	Addysg Awyr Agored, Breswyl, Amgylcheddol
AB	Addysg Bellach
ACEY	Anawsterau Cymdeithasol, Emosiynol ac Ymddygiadol
ADC	Anabledd Datblygu Cydsymud
ADY	Anghenion Dysgu Ychwanegol
AEC	Asesiad Effaith Cydraddoldeb
AGGCC	Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru
ALl	Awdurdod Lleol (y cyngor)
ALlICh	Anghenion Lleferydd, Iaith a Chyfathrebu
AoS 2020	Addysg o Safon 2020
AU	Addysg Uwch
Bac	Y Fagloriaeth Gymreig
BAS	Bwrdd Arweinwyr Strategol [Addysg]
BGLl	Bwrdd Gwasanaethau Lleol
CA	Cyfnod Allweddol
CAA	Cyfleuster Addysgu Arbenigol
CDdB	Cymuned Ddysgu Broffesiynol
DPC	Dangosydd Pynciau Craidd
DPP	Datblygiad Proffesiynol Parhaus
EMLAS	Gwasanaeth Iaith a Chyflawniad Lleiafrifoedd Ethnig
EOTAS	Addysg Heblaw yn yr Ysgol
ERW	Ein Rhanbarth ar Waith (Gwasanaeth Gwella Ysgolion Rhanbarthol De-orllewin a Chanolbarth Cymru)
GAT	Gwasanaeth Addysg Teithwyr
GLlA	Gwasanaeth Lles Addysg
LlC	Llywodraeth Cymru
MPA	Monitro Perfformiad ac Ariannol
NEET	Pobl ifanc nad ydynt mewn Addysg, Cyflogaeth na Hyfforddiant
PABAN	Proffil Asesu Bod yn Agored i Niwed
PAGA	Partneriaeth Addysg Gymraeg Abertawe
PDG	Plentyn/Plant sy'n Derbyn Gofal
PGY	Partneriaeth Gwella Ysgolion
cPYDd	[Disgyblion] cymwys ar gyfer prydau ysgol am ddim
RRhMD	Risgiau, Rhagdybiaethau, Materion a Dibyniaethau
RhAS	Rhaglen Amlinellol Strategol
SAC	Swyddfa Archwilio Cymru
SIY	Saesneg fel Iaith Ychwanegol
TGAU	Tystysgrif Gyffredinol Addysg Uwchradd
UCD	Uned Cyfeirio Disgyblion
UCLlE	Uned Cyflawniad Lleiafrifoedd Ethnig
UDAA	Uwch-dîm Arweinyddiaeth Addysg